



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd



Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

Yn disodli Dogfen ganllawiau rhif: 079/2012

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

- Cynulleidfa** Ysgolion ac ymarferwyr addysgu yng Nghymru; consortia gwella ysgolion; ac awdurdodau lleol.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar raglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd sydd ar gael yng Nghymru ac a brofwyd i fod yn effeithiol o ran cyflymu gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd, wedi'i seilio ar dystiolaeth ymchwil ddibynadwy. Er mae nifer mawr o raglenni ar gael, dim ond y rheini sydd wedi dangos llwyddiant blaenorol wedi cael eu cynnwys yn y canllawiau hyn. Bwriad y canllawiau yw cyflwyno mwy o gysondeb o ran ansawdd ac effeithiolrwydd y rhaglenni dal i fyny sy'n cael eu cyflawni mewn ysgolion yng Nghymru.
- Camau i'w cymryd** Gofynnir i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion defnyddio'r canllawiau hyn i helpu penderfynu y rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd mwyaf addas i gyflenwi am eu dysgwyr.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-Adran Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 060 3300
e-bost: curriculumdivision@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Gellir dod ar draws y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn unig yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
- Dogfennau cysylltiedig** Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) a Phrofion Cenedlaethol (Ymgynghoriad, 2012)
www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Meini prawf am gynhwysiad yn y canllawiau	3
Strwythur crynodeb y rhaglen	4
Dull ymchwil	5
Rhaglenni dal i fyny llythrennedd	8
Better Reading Partnership	8
Llythrennedd Dyfal Donc (Catch Up® Literacy drwy gyfrwng y Gymraeg)	13
Fischer Family Trust Wave 3	20
Reading Recovery	26
Talking Partners	30
TextNow®	36
Rhaglenni dal i fyny rhifedd	40
Rhifedd Dyfal Donc (Catch Up® Numeracy drwy gyfrwng y Gymraeg)	40
1stClass@Number™	47
Mathematics Recovery	51
Numbers Count™	57
Rhagor o wybodaeth a'r camau nesaf	61
Rhestr o dermau	62

Cyflwyniad

Bwriedir yr wybodaeth hon i ysgolion ac ymarferwyr addysgu yng Nghymru ynghyd â chonsortia gwella ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'n darparu canllawiau ar raglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd sydd ar gael yng Nghymru ac a brofwyd i fod yn effeithiol o ran cyflymu gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd, wedi'i seilio ar dystiolaeth ymchwil ddibynadwy.

Diben y canllawiau yw i gyflwyno mwy o gysondeb o ran ansawdd ac effeithiolrwydd rhaglenni dal i fyny a gyflawnir mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r canllawiau yn gynnyrch gwaith ymchwil dwys a wnaed yn ystod Mai a Mehefin 2012 ar ran Llywodraeth Cymru i amrywiaeth eang o raglenni dal i fyny sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Amcan y gwaith ymchwil oedd i gytuno ar set o feini prawf y byddai'n rhaid i raglenni eu cyrraedd er mwyn cael eu cynnwys yn y canllawiau, ac wedyn i gytuno ar restr fer o raglenni sy'n cwrdd â'r meini prawf hyn.

Y rhaglenni a gynhwysir yn y canllawiau hyn yw'r rhai hynny y mae tystiolaeth o lwyddiant wedi ei ganfod amdanyn nhw. Gall peth tystiolaeth o effaith fodoli i raglenni eraill ond doedd hyn naill ai ddim ar gael yn rhwydd neu doedden nhw ddim yn ddigon cadarn i gefnogi eu cynnwys yn y canllawiau hyn. Nid yw ysgolion yn rhwym o ddarparu'r rhaglenni yn y canllawiau hyn, ond efallai gofynnir iddyn nhw gyfiawnhau defnyddio rhaglen arall nad oes ganddi dystiolaeth ddibynadwy o lwyddiant.

Meini prawf am gynhwysiad yn y canllawiau

Roedd gofyn i'r rhaglenni a gynhwyswyd yn y canllawiau gwrdd â'r mesurau canlynol.

- Mae angen data effaith sy'n ddibynadwy ac ar gael yn rhydd, ac a gafwyd drwy ymchwil wrthrychol, i wireddu effeithlonrwydd y rhaglen o ran cyflymu gwelliant mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd.
- Mae gofyn i'r rhaglen fod yn ymyriad dal i fyny wedi ei dargedu, h.y. ni chynhwysir rhaglenni a ddarperir yn nodweddiadol fel dull addysgu cyffredinol (e.e. *First Steps Literacy/First Steps in Mathematics*¹) neu sy'n darparu cymorth i'r unigolyn ar gyfer dysgwyr o bob gallu (e.e. RM Maths^{TM 2}) er gwaethaf tystiolaeth ddibynadwy o effeithiolrwydd y rhaglenni hyn ar ddatblygiad llythrennedd a/neu rifedd.
- Mae angen i'r rhaglen fod ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru.

Sylwch fod y dystiolaeth effaith ar gyfer nifer o raglenni a gynhwysir yn y canllawiau hyn wedi ei seilio ar y data a gasglwyd o ysgolion yn Lloegr, ac mae mesurau cynnydd mewn rhai achosion yn cyfeirio at fesurau oddi fewn i'r cwricwlwm yn Lloegr. Yn yr achosion hyn, nodir y mater ac mae gofyn i ymarferwyr addysgu sylweddoli nad yw'r mesurau o anghenraid yn alinio'n uniongyrchol â'r cwricwlwm yng Nghymru.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012
Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

¹ Deunyddiau addysgu yw *First Steps Literacy/First Steps in Mathematics* wedi ei seilio ar 'Maps of Development' cynhwysfawr sy'n helpu athrawon i asesu a monitro anghenion dysgwyr i ddarparu cyfarwyddyd gwahaniaethol drwy adeiladu ar gryfderau dysgwyr ac i gysylltu cyfarwyddyd priodol mewn ffordd sy'n mynd i'r afael orau â chryfderau ac anghenion pob dysgwr.

² Mae RM MathsTM yn rhaglen diwtora electronig sy'n darparu cymorth mathemateg wedi'i phersonoli a'i theilwra i allu dysgwr unigol, gyda galluoedd sy'n amrywio o anghenion addysgol arbennig (AAA) i ddysgwyr mwy galluog a thalentog.

Strwythur crynodeb y rhaglen

Rhestrir y rhaglenni yn nhrefn yr wyddor, a darperir crynodeb o bob rhaglen. Mae pob crynodeb wedi ei strwythuro yn yr adrannau canlynol.

- Trosolwg o'r ymyriad
- Cynulleidfa darged
- Sail tystiolaeth effaith
- Dull cyflawni
- Gweithdrefn asesu
- Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad
- Cost a gofynion adnoddau
- Hyfforddiant ymarferwyr
- Adnoddau addysgu ychwanegol a chymorth i ymarferwyr
- Rhagor o wybodaeth.

Cynhwysir y rhaglenni llythrennedd dal i fyny canlynol yn y canllawiau:

- Better Reading Partnership
- Llythrennedd Dyfal Donc (Catch Up® Literacy trwy gyfrwng y Gymraeg)
- Fischer Family Trust Wave 3
- Reading Recovery
- Talking Partners
- TextNow®.

Cynhwysir y rhaglenni rhifedd dal i fyny canlynol yn y canllawiau:

- Rhifedd Dyfal Donc (Catch Up® Numeracy trwy gyfrwng y Gymraeg)
- 1stClass@Number™
- Mathematics Recovery
- Numbers Count™.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012
Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

Dull ymchwil

Archwiliwyd ffynonellau gwybodaeth annibynnol sy'n bodoli eisoes am raglenni dal i fyny fel rhan o'r adolygiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- *What works for pupils with literacy difficulties? The effectiveness of intervention schemes* (Third edition), G Brooks (Department for Children, Schools and Families, 2007)
- *Beth sy'n gweithio gyda disgyblion yng Nghymru sydd â phroblemau llythrennedd? Effeithiolrwydd cynlluniau ymyrraeth*, G Brooks (NIACE, 2009)
- *What Works for Children with Mathematical Difficulties? The effectiveness of intervention schemes*, A Dowker (Department for Education and Skills, 2004)
- *Targeted interventions for children with arithmetical difficulties*, A Dowker a G Sigley (The British Psychological Society, 2010)
- *Gwella rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3* (Estyn, 2010)
- cofnodion Llywodraeth Cymru ar raglenni dal i fyny a ddefnyddiwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn academaidd 2011/12
- gwefan y Dyslexia-SpLD Trust' Interventions for Literacy yn www.interventionsforliteracy.org.uk/interventions/list-view/

Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol ac â sampl o gydlynwyr llythrennedd a rhifedd awdurdodau lleol ledled Cymru.

Wedi'i seilio ar wybodaeth cynradd ac uwchradd a gafwyd drwy'r gwaith ymchwil hwn, canfuwyd hyd at 100 o raglenni, gan gynnwys ymyriadau masnachol adnabyddus, rhaglenni a ddatblygwyd yn lleol a deilliadau lleol o raglenni sy'n bodoli eisoes.

Gwnaed yr adolygiad mewn dau gam. I ddechrau, casglwyd rhestr hir o'r rhaglenni sydd wedi eu defnyddio yng Nghymru (naill ai ar hyn o bryd neu yn y gorffennol) a/neu sydd â thystiolaeth effaith dibynadwy ac archwiliwyd pob rhaglen yn fanwl. Ail gam y broses oedd i ganfod y rhestr fer derfynol o raglenni a gynhwyswyd yn y ddogfen ganllaw hon. Roedd rhai rhaglenni a adolygwyd ar gyfer eu cynnwys yn y rhestr hir ond **na** ddewiswyd ar gyfer y

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

rhestr fer yn cynnwys rhaglenni a ddefnyddir ar hyn o bryd neu a ddefnyddiwyd yn eang yng Nghymru yn y gorffennol, ond na wnaethan nhw gwrdd â'r **cyfan** o'r meini prawf angenrheidiol. Roedd y rhaglenni³ hyn yn cynnwys y canlynol.

- DORE (DDAT yn flaenorol): rhaglen ar gyfer gwella sgiliau llythrennedd pobl sydd â dyslecsia, ADHD, dyspracsia, syndrom Asperger, ac anawsterau dysgu eraill drwy gyfres o ymarferion sydd wedi eu cynllunio i wella gweithgaredd y serebelwm.
- *Fflach*⁴: Deunyddiau *Spotlight Maths*⁵ wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.
- *First Steps in Mathematics*⁶: adnodd addysgu ar gyfer ysgolion cynradd a fwriadwyd yn anad dim i godi safonau rhifedd ar draws y cohort dysgwyr cyfan.
- *First Steps Literacy*⁷: adnodd addysgu ar gyfer ysgolion cynradd a fwriadwyd yn anad dim i godi safonau darllen, ysgrifennu a siarad ar draws y cohort dysgwyr cyfan.
- *Hwb Ymlaen*⁸: deunyddiau *Springboard*⁹ wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.
- Number Workout/Numeracy Workout: rhaglen rhifedd a dargedwyd ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru blaenorol ond nad yw bellach ar gael.
- Numeracy Recovery: rhaglen rhifedd a dargedwyd a gafodd ei pheilota yn 2001 a'i haddasu wedi hynny a'i datblygu fel Catch Up® Numeracy.
- Numicon: dull addysgu amlsynnwyr, gynhwysol a fwriadwyd i godi cyrhaeddiad mewn mathemateg.

³ Sylwer nad yw hyn yn rhestr derfynol o'r holl raglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd a gyflawnir yng Nghymru; datblygwyd rhaglenni eraill oddi fewn i ysgol neu awdurdod lleol; mewn achosion eraill gall rhaglenni masnachol fod wedi eu haddasu a'u brandio'n lleol.

⁴ Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 2009.

⁵ Pearson Education Limited, 2002.

⁶ STEPS Professional Development, 2006.

⁷ STEPS Professional Development, 2006.

⁸ Cyngor Sir Gâr.

⁹ National Numeracy Strategy, 2001; deunyddiau'r rhaglen ar gael yn www.edu.dudley.gov.uk/primary/Strategymaterials/nnsdocuments.html

- Read Write Inc.: rhaglen ddarllen, ysgrifennu a sillafu synthetig wedi'i seilio ar ffoneg ar gyfer ysgolion cynradd a fwriadwyd yn bennaf i godi safonau ar draws y cohort dysgwyr cyfan.
- Read Write Inc. Fresh Start: rhaglen ddarllen, ysgrifennu a sillafu synthetig wedi'i seilio ar ffoneg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a fwriadwyd yn bennaf i godi safonau ar draws y cohort dysgwyr cyfan.
- STARS/STARS Cymraeg: dull wedi'i seilio ar y synhwyrau i ddarllen a sillafu, i roi cymorth i ddysgwyr fod yn fwy ymwybodol o ffonoleg.
- Spotlight Maths: rhaglen rhifedd un-i-un yn targedu bylchau cysyniad penodol, oedd wedi'i seilio ar ddeunydd DfES Wave 3; defnyddiwyd y term 'Spotlight Maths' hefyd gan awdurdodau lleol sydd wedi datblygu eu ymyriadau eu hunain.
- Springboard: rhaglen dal i fyny rhifedd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, a ddatblygwyd fel rhan o'r Strategaeth Rhifedd flaenorol yn Lloegr ac oedd ar gael yng Nghymru a Lloegr; fodd bynnag nid yw hyfforddiant a deunyddiau Springboard bellach ar gael i ymarferwyr yn y DU; defnyddiwyd y term 'Springboard' hefyd gan awdurdodau lleol sydd wedi datblygu eu hymyriadau eu hunain.
- Tactical Teaching: adnodd addysgu ar gyfer ei ddefnyddio mewn ysgolion uwchradd yn bennaf gyda'r bwriad o godi safonau mewn darllen, ysgrifennu a siarad a gwrando ar draws y cohort dysgwyr cyfan.
- Teaching Talking: rhaglen datblygu iaith lafar i blant o bob gallu yn y Cyfnod Sylfaen.
- Wave 3: rhaglen rhifedd i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 1 a 2 a ddatblygwyd fel rhan o'r Strategaeth Rhifedd flaenorol yn Lloegr, ac wedi darfod erbyn hyn fel ymyriad ar ei phen ei hun.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

Rhaglenni dal i fyny llythrennedd

Better Reading Partnership

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Dysgwyr rhwng 6 ac 14 oed, sy'n brin o sgiliau a hyder fel darllenwyr.
Tystiolaeth o effaith	Yn seiliedig ar ddata cynnydd a gasglwyd yn flynyddol gan ysgolion ¹⁰ sy'n cyflawni'r ymyriad, mae dysgwyr sy'n rhan o'r rhaglen Better Reading Partnership yn cynyddu eu hoedran darllen gymaint â chwe mis ar gyfartaledd dros gyfnod y rhaglen ddeg wythnos.
Dull cyflawni	Ymyriad un-i-un a ddarperir, dros gyfnod o ddeg wythnos, mewn sesiynau 15 munud o hyd, deirgwaith yr wythnos, gan gynorthwydd addysgu hyfforddedig.
Cymorth i ymarferwyr	Hyfforddiant dros ddeuddydd i ymarferwyr (partneriaid); hyfforddiant dros dridiau i hyfforddwyr.

Trosolwg o'r ymyriad

Mae'r Better Reading Partnership (BRP) yn ymyriad un-i-un, dros gyfnod penodol, sydd wedi ei ddylunio i ddatblygu sgiliau darllen a galluogi dysgwyr i ddarllen yn hyderus, deall y cynnwys a mwynhau'r profiad. Mae'n ymyriad cymharol fyr ei dymor gyda phwyslais ar ddatblygu annibyniaeth dysgwyr fel darllenwyr.

Rheolir yr ymyriad gan Education Works Ltd, ymgynghoriaeth addysgol sy'n arbenigo mewn gwella ysgolion, cymorth darllen, a siarad a gwrando.

Datblygwyd BRP yn y 1990au yn debyg i'r elfen ddarllen yn Reading Recovery¹¹ ac mae'n un o sawl ymyriad sy'n cael ei argymhell gan Every Child a Reader (ECaR)¹².

Nid yw'r deunyddiau ymyriad a'r hyfforddiant ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd, ond mae hyfforddiant i ddarparu'r ymyriad yn Saesneg ar gael i ymarferwyr yng Nghymru.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

¹⁰ Yn Lloegr.

¹¹ Gweler y grynodedd ar wahân o Reading Recovery.

¹² Mae ECaR yn strategaeth llythrennedd gynnar drwy'r ysgol gyfan er mwyn cynyddu cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 1 mewn ysgolion yn Lloegr.

Cynulleidfa darged

Mae BRP yn ymyriad 'ysgafnach' o'i gymharu â dulliau un-i-un eraill. Mae'n briodol i ddysgwyr rhwng 6 ac 14 oes sy'n brin o sgiliau a hyder fel darllenwyr, ac sydd angen hwb i'w hoedran darllen, ond **nid** i'r rhai sydd fwyaf angen cymorth ychwanegol. Mae'r rhaglen ar gyfer dysgwyr sydd angen datblygu eu dealltwriaeth o destunau a fyddai, gyda chefnogaeth briodol, â'r gallu i ddod yn ddarllenwyr effeithiol a hyderus.

Ym Mlwyddyn 3 ac uwch, gall BRP fod yn briodol i ddysgwyr sy'n gallu darllen yn gywir, ond sy'n brin o ddealltwriaeth a hyder.

Yn ogystal, gall BRP fod yn effeithiol fel ymyriad iaith i ddysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel ail iaith neu iaith arall.

Sail tystiolaeth effaith

Mae gofyn i ysgolion¹³ sy'n darparu gwaith BRP gasglu data olrhain blynyddol ar gynnydd dysgwyr, ac mae'n cael ei goladu a'i ddadansoddi gan Education Counts Ltd. Yn seiliedig ar y data hwn, mae dysgwyr sy'n mynd drwy'r ymyriad yn gwneud cynnydd o chwe mis yn eu hoedran darllen ar gyfartaledd yn ystod y rhaglen ddeg wythnos.

Yn ychwanegol, cafodd y prosiect peilot a phrosiectau dilynol (e.e. y prosiect gyda thua 500 o ddysgwyr, yn 1996, yn Bradford, Gorllewin Swydd Efrog, wedi'i gyllido dan y Gyllideb Adfywio Unigol) eu gwerthuso gan ddefnyddio Prawf Darllen Suffolk, ac, yn ystod y rhaglen deg wythnos, fe ddangoswyd cynnydd o chwe mis yn oedran darllen dysgwyr Blwyddyn 1, naw mis yn achos dysgwyr Blwyddyn 5 a deuddeg mis a mwy yn achos dysgwyr Blwyddyn 9.

Nid oes data swyddogol yn seiliedig ar grŵp cymharu na chafodd gefnogaeth o gwbl, neu a gafodd gefnogaeth o natur wahanol, ac ni chasglwyd data dilynol yn seiliedig ar y grŵp sampl.

Dull cyflawni

Mae ymyriad BRP yn cynnwys sesiynau un-i-un wedi'u strwythuro, yn seiliedig ar strwythur gwersi cyffredin ac yn cael eu darparu gan gynorthwydd addysgu profiadol (h.y. Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) Lefel 3) a hyfforddwyd i ddarparu gwaith BRP.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

¹³ Yn Lloegr.

Cyflwynir dysgwyr i amrywiaeth eang o genres ffuglen a ffeithiol, er mwyn dod o hyd i destunau maen nhw'n eu mwynhau, ac i ddatblygu eu dealltwriaeth ac ehangu eu gorwelion.

Ar ddechrau pob sesiwn, mae'r dysgwr yn ailddarllen testun cyfarwydd er dibenion datblygu rhuglder, brawddegau a chyflymdra. Dilynr hyn drwy asesu darllen y testun ar ffurf Cofnod wrth Fynd¹⁴ y mae'r partner yn gallu ei ddefnyddio i ddadansoddi gwallau ac ymddygiadau darllen eraill y dysgwr. Treulir rhan derfynol a hwyaf y wers ar gyflwyno, darllen ac archwilio ystyr mewn llyfr newydd.

Gweithdrefn asesu

Mae Education Counts Ltd yn argymhell y dylai cynorthwywyr addysgu ddefnyddio Cofnodion wrth Fynd i nodi plant yn y Cyfnod Sylfaen¹⁵ a fyddai'n briodol ar gyfer BRP. Yng Nghyfnod Allweddol 2 a dechrau Cyfnod Allweddol 3, mae amrywiaeth o asesiadau y gellir eu defnyddio¹⁶, er mwyn nodi anghenion unigol ac asesu cynnydd yn y darllen yn ystod yr ymyriad.

Bydd y Profion Darllen Cenedlaethol i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9, a gaiff eu cyflwyno yng Nghymru ym mis Mai 2013, yn cefnogi'r broses hon o asesu cychwynnol.

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Fel arfer, bydd dysgwyr yn dod i sesiynau 15 munud, deirgwaith y wythnos. Darperir yr ymyriad dros gyfnod o ddeg wythnos.

Cost a gofynion adnoddau

Darperir yr hyfforddiant dros ddau ddiwrnod i bartneriaid gan un o hyfforddwyr BRP¹⁷ mewn ysgol, ac mae'n costio £600¹⁸ am sesiwn grŵp (20 yw'r mwyafswm priodol). Mae pob partner sy'n cael ei hyfforddi yn cael ffeil gyda profforma i gofnodi cynnydd, gwybodaeth am fandiau llyfrau ac adnoddau eraill sydd eu hangen i ddarparu'r ymyriad.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

¹⁴ Mae Cofnod wrth Fynd yn ddull o asesu lefel darllen dysgwr drwy archwilio cywirdeb a'r mathau o wallau mae'n ei wneud.

¹⁵ Cyfnod Allweddol 1 yn Lloegr.

¹⁶ Er enghraifft, York Assessment of Reading Comprehension.

¹⁷ Gall hwn fod yn ymgynghorydd o Education Works Ltd, neu'n rhywun sydd wedi cael ei hyfforddi fel hyfforddwr gan Education Works Ltd.

¹⁸ TAW yn ychwanegol.

Mae'r sesiwn dros dri diwrnod i hyfforddi'r hyfforddwr yn costio £750 y diwrnod¹⁹. Mae'r taflenni a'r deunyddiau angenrheidiol eraill i ddarparu hyfforddiant BRP i ymarferwyr eraill yn costio £80 yn ychwanegol am bob unigolyn sy'n cael ei hyfforddi, a gellir archebu'r rhain gan Education Works Ltd fel bo'r gofyn, naill ai gan yr hyfforddwr neu'n uniongyrchol gan yr ysgol sy'n cael yr hyfforddiant.

Mae angen adnoddau ychwanegol i gyllido amser y cynorthwydd addysgu i gyflawni'r gwaith. Bydd hyn yn cynnwys amser y sesiynau eu hunain, ynghyd ag amser ychwanegol i ddadansoddi cofnodion cynnydd, dewis llyfrau newydd, a chysylltu â chydlynnydd BRP yn yr ysgol.

Nid yw Education Works Ltd yn mynnu bod llyfrau penodol yn cael eu defnyddio yn sesiynau BRP, ond mae ysgolion angen cael cyflenwad digonol o lyfrau, sy'n amrywiol o ran lefel band y llyfrau, y genre a'r cynllun darllen, ac sy'n cynnwys llyfrau ffeithiol a ffuglen.

Hyfforddiant ymarferwyr

Mae hyfforddiant BRP wedi cael ei ddatblygu gan Education Works Ltd. Bydd cynorthwydd addysgu'n mynd am hyfforddiant dwys dros ddau ddiwrnod gydag Education Works Ltd neu hyfforddwr a hyfforddwyd gan Education Works Ltd. Disgwylir i'r athro/athrawes sy'n gweithredu fel cydlynnydd yr ysgol fynd i'r hyfforddiant. Mewn ysgolion ECaR yn Lloegr neu mewn ysgolion sydd hefyd yn darparu Reading Recovery²⁰, yr athro/athrawes Reading Recovery fydd hwnnw fel arfer. Bydd yr holl ymarferwyr sy'n cael eu hyfforddi yn cael ffeil gyda gwybodaeth am y cwrs a deunyddiau cefnogi i'w galluogi i gyflawni'r rhaglen. Gallai hyfforddwyr BRP fod yn ymgynghorwyr, prifathrawon, cydlynwyr llythrennedd neu athrawon Reading Recovery i ysgolion yn eu hawdurdod lleol.

Cynnwys cwrs hyfforddi dros ddau ddiwrnod BRP

- Arsylwi dwy wers.
- Gwybodaeth am y broses ddarllen.
- Datblygu sgiliau holi.
- Gweithgareddau ymarferol.
- Cofnodion wrth Fynd (i asesu Cyfnod Allweddol 1/y Cyfnod Sylfaen).
- Cadw cofnodion.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

¹⁹ Treuliau a TAW yn ychwanegol.

²⁰ Gweler y grynodedd ar wahân o Reading Recovery.

Adnoddau addysgu ychwanegol a chymorth i ymarferwyr

Mae ffeil CD cydlynwyr yn cynnwys gwybodaeth am arferion gorau ac mae'n costio £15; byddai angen un ym mhob ysgol.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, ewch i

www.educationworks.org.uk/what-we-do/reading-support/the-better-reading-partnership.html

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

Llythrennedd Dyfal Donc (Catch Up®²¹ Literacy drwy gyfrwng y Gymraeg)

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Ymyriad effeithiol ar sail tystiolaeth i rai rhwng 6 ac 14 oed sy'n cael anhawster wrth ddarllen.
Tystiolaeth o effaith	Tystiolaeth gadarn o effaith ar effeithiolrwydd ac effaith hirdymor yr ymyriad o ran gwelliannau academiaidd ac ymddygiadol dysgwyr; dros gyfnod cyfartalog o saith mis, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cyfartalog yn eu hoedran darllen o tua 19 mis.
Dull cyflawni	Ymyriad strwythuredig sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac sy'n cael ei ddarparu gan athrawon neu gynorthwywyr dysgu, ddwywaith yr wythnos mewn sesiynau un-i-un sy'n para am 15 munud ²² .
Cymorth i ymarferwyr	Hyfforddiant ymarferwyr o safon uchel wedi ei achredu, gyda chefnogaeth gydol oes drwy Gymuned Catch Up®.

Trosolwg o'r ymyriad

Ymyriad llythrennedd yw Catch Up® Literacy a ddatblygwyd yn wreiddiol yn 1997 gan Catch Up®²³, elusen gofrestredig²⁴ yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu'n ddielw gydag ymchwilwyr o Brifysgol Oxford Brookes²⁵. Llythrennedd Dyfal Donc yw fersiwn Gymraeg Catch Up® Literacy, ac fe'i cyfieithwyd a'i addaswyd yn wreiddiol yn 1999, ei beilota ym Mhowys a'i lansio yn 2000.

Er dibenion y ddogfen ganllawiau hyn, defnyddir y term 'Llythrennedd Dyfal Donc'; er hynny, oni nodir yn wahanol, mae'r wybodaeth a roddir yn gymwys i fersiynau Cymraeg a Saesneg yr ymyriad llythrennedd.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012
Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

²¹ Mae Catch Up® yn nod masnachu cofrestredig (2563819) sy'n perthyn i Ymddiriedolaeth Caxton (enw gweithredol Catch Up®).

²² Yn seiliedig ar gofnodion hyfforddi Llythrennedd Dyfal Donc, mae traean o'r hyfforddeion yn athrawon a dau draean yn gynorthwywyr addysgu.

²³ Mae Catch Up® yn elusen dielw sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblem tangyflawni sy'n tarddu o anawsterau â llythrennedd a rhifedd. Cyllidwyd y datblygiad yn rhannol gan Sefydliad Esmée Fairbairn.

²⁴ Rhif Elusen: 1072425.

²⁵ Mae'r holl hawlfraint a pherchnogaeth gyfreithiol ar yr ymyriad yn gyfan gwbl yn eiddo i Ymddiriedolaeth Caxton/Catch Up®.

Disgrifir Llythrennedd Dyfal Donc fel 'ymyriad sy'n galluogi darllenwyr sy'n cael anhawster i gyflawni mwy na dwywaith y cynnydd a welir mewn darllenwyr nodweddiadol sy'n datblygu.'²⁶ Dyluniwyd y rhaglen i gael effaith ar gynnydd gyda darllen, gan hefyd wella sgiliau cysylltiedig sillafu a llawysgrifen. Ni fwriadwyd Llythrennedd Dyfal Donc ar gyfer rhai sy'n dechrau darllen.

Mae'r deunyddiau ymyriad a'r hyfforddiant ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac maen nhw ar gael i ymarferwyr yng Nghymru.

Cynulleidfa darged

Mae'r ymyriad yn addas i ddysgwyr rhwng 6 ac 14 oed, y mae eu hoedran darllen yn sylweddol is na'u hoedran cronolegol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r ymyriad yn cael ei ddarparu hyd at Flwyddyn 9; mae ymarferwyr eraill yn teimlo bod yr ymyriad yn fwyaf effeithiol pan fydd wedi ei dargedu ym Mlynnyddoedd 2 a 3 yn unig. Ar hyn o bryd, nid oes data swyddogol sy'n dangos lefelau cymharol llwyddiant yr ymyriad i ddysgwyr o oedrannau amrywiol.

Sail tystiolaeth effaith

Mae Llythrennedd Dyfal Donc wedi cael ei werthuso'n helaeth, ac wedi cael ei brofi mewn ysgolion a lleoliadau eraill ledled y DU fel ymyriad effeithiol i ddarllenwyr sy'n cael anawsterau. Mae data ar gael gan Catch Up®²⁷ ynghyd â ffynonellau eraill²⁸. Mae data, a gyflwynwyd i Catch Up® gan awdurdodau lleol ac ysgolion, ar gyfer 3,134 o ddysgwyr rhwng 6 ac 14 oed a gafodd gefnogaeth Llythrennedd Dyfal Donc²⁹ dros gyfnod cyfartalog o saith mis, yn dangos cynnydd cyfartalog yn yr oedran darllen o tua 19 mis³⁰.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012
Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

²⁶ Dyfyniad wedi'i gyfieithu o'r llyfryn Catch Up® Literacy, sydd ar gael yn www.catchup.org.uk/CatchUpLiteracy/MoreaboutCatchUpLiteracy.aspx www.catchup.org/SharingSuccess/Researchbibliography.aspx

²⁷ Er enghraifft, *What works for pupils with literacy difficulties? The effectiveness of intervention schemes* (Third edition), G Brooks (Department for Children, Schools and Families, 2007).

²⁸ Dysgwyr yng Nghymru a Lloegr a gafodd gefnogaeth Llythrennedd Dyfal Donc rhwng 2002 a 2010, gydag o leiaf ddau draean o'r rhain o Gymru.

²⁹ Pedwaredd Cynhadledd y Byd ar Wyddorau Addysg, *Early intervention to prevent long-term literacy difficulties: the case of Catch Up Literacy*, W Holmes, D Reid, A Dowker (2012).

O ran ei effaith barhaus, canfu astudiaeth o effaith tymor hir Llythrennedd Dyfal Donc bod 92 y cant o ddysgwyr a gafodd gefnogaeth Llythrennedd Dyfal Donc yn saith oed wedi parhau i allu cymryd rhan lawn yn y cwricwlwm, ochr yn ochr â'u cyfoedion, pan oedden nhw'n 14 oed³¹.

Mewn astudiaeth beilot o Llythrennedd Dyfal Donc, cymharwyd cynnydd yn oedran darllen dysgwyr a gafodd deg wythnos o gefnogaeth Llythrennedd Dyfal Donc â'r cynnydd yn oedran darllen dau grŵp arall o ddysgwyr. Cafodd y grŵp cyntaf (y grŵp oedd yn cael yr un amser) yr un dyraniad amser a ragnodwyd â Llythrennedd Dyfal Donc³² ond ni ddarparwyd fframwaith canllaw nac adnoddau i'r athrawon i'w helpu i gynllunio'r sesiynau hyn. Fe wnaeth y trydydd grŵp (y grŵp rheolydd) barhau â phatrwm arferol mewnbwn gan eu hathrawon, h.y. ni chawson nhw gefnogaeth ychwanegol.

Y cynnydd cymedrig yn oedran darllen dysgwyr³³ a gafodd ddeg wythnos o gefnogaeth Llythrennedd Dyfal Donc oedd 6.5 mis; roedd hyn yn cymharu ag oedran darllen cymedrig i ddysgwyr yn y grŵp amser paru³⁴ o 3.5 mis a chynnydd cymedrig yn oedran darllen dysgwyr yn y grŵp rheoli³⁵ o 1.1 mis³⁶.

Dull cyflawni

Mae Llythrennedd Dyfal Donc yn ymyriad sy'n seiliedig ar lyfrau lle mae dysgwyr yn cael cefnogaeth un-i-un i ddarllen llyfr sydd ar lefel briodol o anhawster. Mae'r sesiynau darllen yn ymwneud â phrosesau adnabod geiriau (gan gynnwys adnabyddiaeth ffonig ac ymwybyddiaeth ffonolegol) ynghyd â phrosesau deall iaith, ac maen nhw'n cael eu darparu gan ymarferwyr hyfforddedig, sy'n cael eu galw'n ddarparwyr Catch Up®.

Mae darllen wedi'i baratoi yn elfen bwysig sy'n digwydd ar ddechrau'r sesiwn, ac mae'n para am dri munud. Mae'r darparwr Catch Up® a'r dysgwr yn edrych ar y llyfr gyda'i gilydd er mwyn rhoi trosolwg o'r testun i'r dysgwr, fel eu bod nhw'n gallu canolbwyntio ar ddarllen i ganfod yr ystyr, cyflwyno geirfa anghyfarwydd a rhoi rhagor o hyder i'r dysgwr allu mynd i'r afael â'r testun.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

³¹ Mae hyn yn seiliedig ar ddata ar gyfer 247 o ddysgwyr o ddau awdurdod lleol, 2003 a 2010.

³² Sesiwn wythnosol am 10 munud wedi'i haddysgu'n unigol, ynghyd â sesiwn darllen mewn grŵp am 15 munud.

³³ Roedd cyfanswm o 74 dysgwr yn y sampl a gafodd gefnogaeth Llythrennedd Dyfal Donc.

³⁴ Roedd cyfanswm o 14 dysgwr yn y grŵp amser paru.

³⁵ Roedd cyfanswm o 14 dysgwr yn y grŵp rheoli.

³⁶ *The Catch Up Project: a reading intervention in Year 3 for Level 1 readers (Research Note)*, S Clipson-Boyles (Oxford Brookes University, 2000).

Pedwar cam cyflawni Llythrennedd Dyfal Donc

Mae Cam 1 yn ymwneud ag asesiadau ar gyfer dysgu er mwyn gosod targedau Llythrennedd Dyfal Donc a chanfod man cychwyn priodol ar gyfer yr ymyriad. Bydd y Profion Darllen Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9, a gaiff eu cyflwyno yng Nghymru ym mis Mai 2013, yn cefnogi'r broses hon o asesu cychwynnol.

Ar Gam 2, bydd y darparwr yn dewis llyfr priodol (o ran oedran cronolegol, oedran darllen ac anghenion penodol) i'r dysgwr ei ddarllen yn ystod sesiynau Llythrennedd Dyfal Donc. Mae rhestr ar-lein o lyfrau Llythrennedd Dyfal Donc yn gronfa ddata sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd, ac sy'n cynnwys mwy nag 8,000 o lyfrau (Cymraeg a Saesneg) sydd wedi cael eu graddio yn unol â lefelau Llythrennedd Dyfal Donc ac oedran cronolegol, ac sydd â mynediad iddi am ddim i ddarparwyr Llythrennedd Dyfal Donc hyfforddedig. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r asesiadau ar gyfer dysgu, bydd darparwyr yn dewis llyfrau y bydd y dysgwyr yn gallu eu darllen gyda 90 y cant o lwyddiant.

Yn ei hanfod, mae Cam 3 yn golygu darparu sesiwn un-i-un sy'n para am 15 munud dwywaith yr wythnos. Bydd pob sesiwn yn cynnwys tri munud o ddarllen wedi'i baratoi, chwe munud pan fydd y dysgwr yn darllen a'r testun yn cael ei drafod, a'r chwe munud olaf yn ymarfer ysgrifennu cysylltiedig.

Mae Cam 4 yn cynnwys monitro parhaus, drwy droi'n ôl at yr asesiadau dysgu ac adolygu targedau Llythrennedd Dyfal Donc yn unol â hynny (gweler isod).

Gweithdrefn asesu

Mae darparwyr Llythrennedd Dyfal Donc hyfforddedig yn defnyddio asesiadau ar gyfer dysgu Catch Up® i asesu sut mae dysgwyr yn adnabod geiriau, ffoneg a llythrennau a'u gwybodaeth am sillafu, ac i benderfynu anghenion y dysgwr unigol ar ddechrau'r ymyriad. Yn ogystal, defnyddir prawf safonol³⁷ cyn ac ar ôl yr ymyriad.

Mae canlyniadau'r asesiadau ar gyfer dysgu hyn yn cael eu defnyddio i nodi oedran darllen dysgwyr unigol a'u sgôr wedi'i safoni³⁸ ac yn sgil hynny i osod targedau Llythrennedd Dyfal Donc a nodi'r man cychwyn priodol ar gyfer yr ymyriad.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

³⁷ Fel arfer, Salford Sentence Reading Test (Hodder).

³⁸ Mae sgoriau wedi'u safoni yn cynnig ffordd o ddeall sgoriau profion yn fwy gwrthrychol na defnyddio canrannau uniongyrchol. Maen nhw'n ystyried ffactorau fel pa mor anodd oedd y prawf, neu sut mae sgoriau unigolion yn cymharu â rhai dysgwyr eraill, neu yn erbyn data meincnodi ehangach.

Mae Catch Up® yn argymhell bod asesiadau dysgu Catch Up® yn cael eu cynnal ar ddechrau, yng nghanol, ac ar ôl yr ymyriad, ac yn yr un modd bod profion cyn ac ar ôl yr ymyriad yn cael eu cynnal, gan ddefnyddio asesiad wedi'i safoni. Bydd monitro'r cynnydd yn digwydd yn barhaus yn ystod y sesiynau unigol.

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Mae sesiynau Llythrennedd Dyfal Donc yn para 15 munud yr un, ac maen nhw'n cael eu darparu ddwywaith yr wythnos gan ddarparwr Llythrennedd Dyfal Donc hyfforddedig.

Cost a gofynion adnoddau

Darperir Llythrennedd Dyfal Donc drwy ddull un-i-un, er bod nifer y dysgwyr y mae pob darparwr hyfforddedig yn eu cefnogi'n amrywio o ysgol i ysgol.

Cyfrifwyd cost gyfartalog darparu Llythrennedd Dyfal Donc gan Catch Up®, ac mae'n seiliedig ar gostau hyfforddi Llythrennedd Dyfal Donc a'r gost darparu o ran amser y staff. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi ymarferwr a gweithredu a darparu Llythrennedd Dyfal Donc mewn ysgol nodweddiadol tua £130 fesul dysgwr ar gyfartaledd. Mae profforma ar gael ar hafan gwefan Catch Up®, a gellir ei newid o ran nifer y darparwyr sydd wedi'u hyfforddi, nifer y darparwyr hyfforddedig fesul dysgwr, fesul blwyddyn a chostau staff.

Hyfforddiant ymarferwyr

Dim ond fel rhan o becyn hyfforddi ac adnoddau cynhwysfawr y mae Llythrennedd Dyfal Donc ar gael, a darperir hyfforddiant i athrawon a chynorthwyrwyr dysgu gan hyfforddwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan Llythrennedd Dyfal Donc. Gall ymarferwyr archebu lle mewn digwyddiad hyfforddi wedi'i drefnu (yn ddibynnol ar argaeledd). Gellir trefnu sesiynau hyfforddi Llythrennedd Dyfal Donc ychwanegol i leiafswm o ddeg aelod o staff o ysgolion unigol, o glystyrau o ysgolion neu o leoliadau eraill. Mae hyfforddiant Llythrennedd Dyfal Donc yn costio £350 i bob un sy'n cael eu hyfforddi, ac mae'n cynnwys:

- yr hyfforddiant ei hunan, a ffioedd achredu OCN
- ffeil ac enw defnyddiwr a chyfrinair unigryw ar gyfer gwefan Catch Up®, sy'n rhoi mynediad at yr holl ganllawiau a profformâu sydd eu hangen i ddarparu a rheoli'r ymyriadau

- aelodaeth o Gymuned Catch Up® a chymorth gydol oes
- tri chredyd tuag at gemau digidol Llythrennedd Dyfal Donc
- cyfle i gyflwyno cais yng Ngwobrau Rhagoriaeth Catch Up®.

Pedair elfen hyfforddiant Llythrennedd Dyfal Donc

Rhan 1 (L1) yw 'Cyflwyno Llythrennedd Dyfal Donc' ac mae'n darparu trosolwg ar Lythrennedd Dyfal Donc a gwybodaeth ar weithredu a rheoli'r ymyriad. Mae L1 ar gyfer uwch-reolwyr ac aelodau o staff a fydd yn rheoli'r ymyriad. Bydd y sesiwn yn para am 90 munud, ac mae'n cael ei chynnal am ddim.

Rhan 2 (L2) yw 'Darparu Llythrennedd Dyfal Donc', ac mae'r rhan hon ar gyfer y staff a fydd yn darparu Llythrennedd Dyfal Donc a'r rhai a fydd yn rheoli'r ymyriad. Mae L2 yn cynnwys tair sesiwn hanner diwrnod (gyda thasgau dilynol) ac mae'r sesiynau yn rhoi sylw i gefndir Llythrennedd Dyfal Donc, asesu sgiliau Llythrennedd, darparu sesiwn unigol Llythrennedd Dyfal Donc a monitro parhaus.

Rhan 3 (L3) yw 'Rheoli Llythrennedd Dyfal Donc', ac mae'r rhan hon ar gyfer aelodau'r staff a fydd yn rheoli'r ymyriad y mae hwn ar gael. Bydd y sesiwn hon, sy'n para am awr, yn canolbwyntio ar reoli'r ymyriad yn effeithiol.

Rhan 4 (L4) yw 'Adolygu a'r camau nesaf', ac mae'r rhan hon ar gyfer staff a fydd yn darparu Llythrennedd Dyfal Donc a'r rhai a fydd yn rheoli'r ymyriad. Bydd y cwrs hanner diwrnod yn adolygu darparu Llythrennedd Dyfal Donc, ac yn rhoi rhagor o arweiniad i'r rhai sy'n cael eu hyfforddi. Mae hyfforddiant Llythrennedd Dyfal Donc yn cael ei achredu gan Ranbarth Dwyreiniol yr OCN, a chaiff y rhai sy'n cael eu hyfforddi ymgeisio am achrediad heb gost ychwanegol.

Er bod hyfforddiant Llythrennedd Dyfal Donc ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, bydd rhai darparwyr sy'n darparu sesiynau Llythrennedd Dyfal Donc yn cael hyfforddiant drwy'r Saesneg³⁹.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

Adnoddau addysgu ychwanegol a chymorth i ymarferwyr

Mae gemau digidol Llythrennedd Dyfal Donc ar gael am gost ychwanegol i athrawon a rhieni/gofalwyr, a gellir eu defnyddio i ategu Llythrennedd Dyfal Donc neu fel adnodd annibynnol (e.e. i'w ddefnyddio yn y cartref)⁴⁰; yn ogystal, gellir defnyddio'r gemau fel rhan o strategaeth ymadael i ddysgwyr sydd wedi cwblhau sesiynau strwythuredig Llythrennedd Dyfal Donc.

Cymorth ychwanegol i ymarferwyr

- Taflenni ar gyfathrebu gyda rhieni/gofalwyr.
- Cynllun Gweithredu Cydlynwyr Catch Up®.
- Rhestrau gwirio a chanllawiau ar amserlennu, cyfathrebu gyda rhieni/gofalwyr a staff, rheoli a chefnogi'r ymyriad; monitro'r ddarpariaeth, casglu data a dathlu llwyddiant.
- Cymorth gydol oes gan gymuned Catch Up®.
- Cyfarfodydd cydlynwyr Catch Up® mewn awdurdodau lleol/consortia wedi'u hwyluso gan Catch Up® ddwywaith y flwyddyn.
- Cyfle i ymarferwyr argymhell llyfrau i'w graddio a'u hychwanegu at restr llyfrau Catch Up® heb gost ychwanegol.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.catchup.org

Neu, e-bostiwch info@catchup.org

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

³⁹ Mae Catch Up® yn cydnabod ei bod o fantais sylweddol os yw hyfforddiant ymarferwr yn cael ei ddarparu yn yr un iaith ag y darperir y sesiynau Llythrennedd Dyfal Donc.

⁴⁰ Gellir prynu gemau digidol o www.catchup.org.uk/Resources/CatchUpLiteracydigitalgames.aspx

Fischer Family Trust Wave 3

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Dysgwyr chwech neu saith oed sy'n darllen ac ysgrifennu ar Lefel 1 isel neu'n is ⁴¹ .
Tystiolaeth o effaith	Ar gyfartaledd mae dysgwyr sy'n mynd drwy'r rhaglen yn gwneud cynnydd o sgoriau o bedwar pwynt cyfnod allweddol cyfartaledd cenedlaethol ⁴² mewn darllen ac ysgrifennu gan symud o Lefel 1 isel i Lefel 1B ⁴³ diogel.
Dull cyflawni	Sesiwn dyddiol yn para rhwng 15 ac 20 munud ar sail un-i-un gan gynorthwydd addysgu hyfforddedig, dros gyfnod o rhwng deg ac ugain wythnos gan ddibynnu ar lefel angen yr unigolyn.
Cymorth i ymarferwyr	Tri diwrnod o hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu ac athrawon cymorth. Tri diwrnod o hyfforddiant i hyfforddwyr.

Trosolwg o'r ymyriad

Mae Fischer Family Trust Wave 3⁴⁴ (FFT Wave 3) yn ymyriad i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 1 a 2 sydd heb y sgiliau i gael mynediad i raglenni Cymorth Llythrennedd Cynnar⁴⁵ ac sy'n darllen ac ysgrifennu ar Lefel 1 isel neu'n is⁴⁶. Datblygwyd yr ymyriad gan y Fischer Family Trust⁴⁷ ac mae'n targedu'r rhai ag anawsterau dysgu cyffredinol; mae'r rhaglen yn cwmpasu darllen ac ysgrifennu. Er yn nodweddiadol mae wedi targedu dysgwyr ym Mlwyddyn 1, mae FFT Wave 3 hefyd wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan blant hŷn ar lefel llythrennedd tebyg.

⁴¹ Nodwch fod disgrifiadau lefel wedi ei seilio ar y cwricwlwm yn Lloegr.

⁴² Mae sgoriau pwyntiau cyfartaledd yn cynnig darlun llawnach o gyrhaeddiad dysgwyr o bob gallu a chaiff ei gyfrifo drwy gyfri sgoriau'r dysgwr mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a rhannu'r cyfanswm gyda'r nifer o sgoriau perthnasol.

⁴³ Canlyniadau wedi eu seilio ar ddysgwyr yn Lloegr.

⁴⁴ Gwnaed crynodeb o'r ddarpariaeth effeithiol a chynhwysol (yn Lloegr) yn y model National Strategies' Waves a gynlluniwyd i isafu tangyflawniad pob un o'r dysgwyr drwy 3 Waves. Mae Wave 3 yn cyfeirio at y dull mwyaf dwys o gefnogaeth gan athro/athrawes arbenigol, cynorthwydd addysgu wedi ei hyfforddi i safon uchel neu fentor academaidd yn cyflwyno un-i-un, neu i grwpiau bach i gynnal dysgwyr tuag at lwyddo i gyrraedd targedau penodol iawn.

⁴⁵ Mae Cymorth Llythrennedd Cynnar yn strategaeth ymyriad i gefnogi plant ym Mlwyddyn 1 sydd ddim yn gweithio ar y lefel y disgwyliid i'w hoedran. Mae'n raglen 12 wythnos sy'n anelu at roi hwb i'r plant i gyrraedd yr hyn sy'n addas i'w hoed erbyn diwedd yr ail dymor ym Mlwyddyn 1.

⁴⁶ Nodwch fod y lefel hon wedi ei seilio ar y cwricwlwm yn Lloegr.

⁴⁷ Mae'r Fischer Family Trust yn sefydliad annibynnol dielw sy'n ymwneud yn bennaf ag ymgymryd a chefnogi prosiectau sy'n ymdrin â datblygu addysg yn y DU. Mae Fischer Family Trust yn elusen cofrestredig, Rhif 1075453.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012
Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

Datblygwyd FFT Wave 3 yn 2003 a chyhoeddwyd adroddiad peilot, wedi ei seilio ar 67 dysgwr⁴⁸, yn 2004. Mae FFT Wave 3 yn un o sawl ymyriad a argymhellwyd gan Every Child a Reader (ECaR)⁴⁹.

Nid yw deunyddiau'r ymyriad a'r hyfforddiant ar gael ar hyn o bryd yn y Gymraeg ond mae hyfforddiant i gyflwyno'r ymyriad ar gael yn Saesneg i ymarferwyr yng Nghymru.

Cynulleidfa darged

Bwriadwyd FFT Wave 3 i ddysgwyr sydd angen mwy na math Wave 2 o ymyriad wedi'i seilio ar grŵp⁵⁰, ond nad yw rhaglenni dwys wedi eu cyflwyno gan athro/athrawes (e.e. Reading Recovery⁵¹) yn addas ar eu cyfer neu ar gael yn yr ysgol. Nid yw'r ymyriad yn addas i ddysgwyr sy'n gweithio uwchben Lefel 2 isel⁵² mewn ysgrifennu.

Sail tystiolaeth effaith

Mae data tystiolaeth ar gael wedi'i seilio ar ganlyniadau 255 o ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 1 i 5 oddi wrth naw awdurdod lleol yn Lloegr a gwblhaodd raglen lawn gyda lefelau llyfr cychwynol a therfynol⁵³. Y cynnydd ar gyfartaledd mewn Lefelau Llyfr Reading Recovery⁵⁴ oedd 9.9 neu tua phedwar Band Llyfr. Roedd Lefel Llyfr Cymedr ar ddechrau'r rhaglen yn 3.8 (Band Llyfr Reading Recovery 2: Coch⁵⁵) ac yn 13.7 ar y diwedd (Band Llyfr Reading Recovery 5: Gwyrdd⁵⁶). Ar gyfartaledd gwnaeth dysgwyr gynnydd o bedwar o sgoriau cyfartaledd cenedlaethol cyfnod allweddol yn eu darllen ac ysgrifennu gan symud o Lefel 1 isel i Lefel 1B⁵⁷ diogel.

⁴⁸ Yn Lloegr.

⁴⁹ Mae ECaR yn strategaeth llythrennedd cynnar i godi cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 1 mewn ysgolion yn Lloegr.

⁵⁰ Cynlluniwyd darpariaeth Wave 2 i gynyddu graddau cynydd a dysgu sicr i grwpiau o ddysgwyr sy'n eu rhoi yn ôl ar y ffordd i gwrdd â neu i ragori ar y disgwyliadau cenedlaethol. Mae hyn fel arfer yn cymryd ffurf rhaglen dynn wedi'i strwythuro o gymorth i grŵp bach a dargedwyd yn ofalus yn ôl y dadansoddiad o angen ac a gyflawnir gan athrawon neu gynorthwywyr addysgu. Gall y cymorth hwn ddigwydd tu allan (ond hefyd yn ychwanegol at) wersi dosbarth gyfan, neu gael ei adeiladu'n rhan o wers prif ffrwd fel rhan o waith dan arweiniad.

⁵¹ Gweler y grynodedd ar wahân o Reading Recovery.

⁵² Seiliodd hyn ar ddisgrifiadau lefel oddi fewn i'r cwricwlwm yn Lloegr.

⁵³ *FFT Wave 3 Report 2009*, J Canning (Prosiect Addysg Fischer Cyf, Mai 2009). Ar gael gan www.fischertrust.org/downloads/lit/Wave3/FFT_Wave_3_Report_2009.pdf

⁵⁴ Cafodd y system hwn o roi grwpiau o lyfrau mewn bandiau lliw i gynrychioli gwahanol lefelau o anawsterau darllen ei ddatblygu gan Reading Recovery.

⁵⁵ Mae hyn yn alinio i oed darllen o rhwng 4.5 a 5 oed (rhwng 54 a 60 mis).

⁵⁶ Mae hyn yn alinio i oed darllen o rhwng 6 a 6.5 oed (rhwng 72 a 78 mis).

⁵⁷ Mae hwn wedi ei seilio ar sgoriau pwynt cyfartaledd cenedlaethol oddi fewn i'r cwricwlwm yn Lloegr.

Nid oes data swyddogol wedi eu seilio ar grŵp cymharol na dderbyniodd gymorth o gwbl neu a gafodd gymorth o fath gwahanol, ac ni chasglwyd data dilynol wedi'u seilio ar grŵp sampl.

Dull cyflawni

Trosglwyddir sesiynau FFT Wave 3 ar sail un-i-un gan gynorthwydd addysgu hyfforddedig ac wedi ei gynorthwyo gan athro/athrawes hyfforddedig. Disgrifiwyd y cynllun fel rhaglen '*wedi ei hanelu at blant ym Mlwyddyn 1 sy'n gweithio oddi fewn neu'n is na Band Llyfr 2 [Reading Recovery]. Wedi ei gynllunio i'w drosglwyddo gan gynorthwywyr addysgu profiadol, mae'n cynnwys rhaglen dreigl o ddiwrnod darllen, diwrnod ysgrifennu, diwrnod darllen, diwrnod ysgrifennu, ac ati, yn digwydd am 15–20 munud bob dydd ar sail un i un.*'⁵⁸

Mae pob rhaglen FFT Wave 3 wedi ei theilwrio at anghenion llythrennedd y dysgwr unigol ac yn mynd i'r afael â sgiliau a gwybodaeth ar lefel gair, brawddeg a thestun gyda'r bwriad o helpu'r dysgwr i ddatblygu ystod o strategaethau darllen ac ysgrifennu annibynnol.

Trosglwyddir FFT Wave 3 fel rhaglen dreigl dau ddiwrnod yn canolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu bob yn ail. Yn ystod y diwrnod darllen mae'r dysgwr yn ailddarllen llyfr sy'n cyfarwydd iddo ac wedyn yn gweithredu tri gweithgaredd cysylltiedig; mae'r dysgwr wedyn yn darllen llyfr newydd gan ddilyn cyflwyniad i'r llyfr ac wedyn yn ailgreu brawddeg a gymerwyd o'r llyfr a'i aildrefnu gan y cynorthwydd addysgu; mae'r sesiwn yn gorffen gyda'r dysgwr yn dysgu gair newydd o'r llyfr.

Mae'r diwrnod ysgrifennu'n dechrau gyda'r dysgwr yn ailddarllen y llyfr newydd o'r diwrnod (darllen) blaenorol ac mae'r ymarferwr yn gwneud Cofnod wrth Fynd wythnosol⁵⁹; mae'r dysgwr wedyn yn adolygu'r gair neu'r geiriau a ddysgwyd yn flaenorol. Prif ran y sesiwn yw ffurfio ac ysgrifennu un neu fwy o frawddegau wedi ei seilio ar y darlun neu'r ysgogiad o'r llyfr maen nhw newydd ei ddarllen. Mae'r dysgwr wedyn yn ailgreu'r frawddeg mae newydd ei ysgrifennu ac yn dysgu sillafu gair a ddefnyddir yn gyffredin o'r frawddeg.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

⁵⁸ Canning (2004), dyfynnwyd yn *What works for pupils with literacy difficulties? The effectiveness of intervention schemes* (Third Edition), G Brooks (Department for Children, Schools and Families, 2007), tud. 52.

⁵⁹ Mae Cofnod wrth Fynd yn ddull o asesu lefel darllen y dysgwr drwy arholi cywirdeb a'r mathau o gamgymeriadau a wneir ganddo.

Gweithdrefn asesu

Mae pob rhaglen FFT Wave 3 wedi ei seilio ar asesiad cyntaf o'r dysgwr unigol gan ddefnyddio amrywiaeth o asesiadau darllen ac ysgrifennu cynnar. Mae'r asesiad a gymeradwyir wedi ei seilio o gwmpas Reading Recovery Observation Survey⁶⁰ ac mae'n asesu galluoedd pob dysgwr yn erbyn lefelau llyfr Reading Recovery.

Mae Cofnodion wrth Fynd hefyd yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd. Gellir hefyd defnyddio The British Ability Scales Word Reading Test i asesu dysgwyr ac i ddilyn cynnydd ond dim ond gan athrawon hyfforddedig Reading Recovery. Nid yw oedran darllen dysgwyr yn cael eu profi'n ffurfiol ar y sail eu bod yn dechrau o sail mor isel; fodd bynnag mae'n bosibl alinio brasamcan o oedran darllen ar gyfer pob lefel llyfr Reading Recovery.

Bydd Profion Darllen Cenedlaethol i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9, a gaiff eu cyflwyno yng Nghymru ym Mis Mai 2013, yn cefnogi'r broses o asesiad cychwynol.

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Mae dysgwyr fel arfer yn mynychu sesiynau dyddiol sy'n para rhwng 15 ac 20 munud. Mae'r ymyriad yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o rhwng deg ac ugain wythnos, yn dibynnu ar anghenion y dysgwr.

Cost a gofynion adnoddau

Mae'r Fischer Family Trust yn cynnig dau fath o hyfforddiant. Darperir hyfforddiant i hyfforddwyr dros dri diwrnod dilynol ar gost o £650⁶¹ yr hyfforddai y dydd, sy'n cynnwys y cwbl o'r deunyddiau angenrheidiol i ddarparu hyfforddiant ar gyfer eraill.

Mae hyfforddiant ar gyfer cynorthwyr addysgu i ddarparu ymyriad ac athrawon i gefnogi cyflawni hefyd yn costio £650⁶² y diwrnod, ond rhennir y gost ar draws y hyfforddeion yn mynychu o glwstwr o ysgolion. Yn ychwanegol mae angen o leiaf un⁶³ ffeil FFT Wave 3

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012
Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

⁶⁰ Mae Reading Recovery Observation Survey (yn benodol *An Observation Survey of Early Literacy Achievement*, Clay, 2002, 2006) yn asesiad wedi ei safoni a'i drefnu gan athrawon yn cynnig dull systematig o ddal ymddygiadau darllen ac ysgrifennu cynnar.

⁶¹ TAW a threuliau yn ychwanegol.

⁶² TAW a threuliau yn ychwanegol.

⁶³ Mae un ffeil yr ysgol yn ddigon os mai dim ond un athro/athrawes ac un cynorthwydd addysgu sy'n cael hyfforddiant; fodd bynnag os oes mwy nag un cynorthwydd addysgu yn cael ei hyfforddi, bydd angen ffeiliau ychwanegol i bob cynorthwydd.

ar gyfer pob ysgol ar gost o £75⁶⁴. Mae hyfforddiant yn cael ei rannu dros dair wythnos i ganiatáu ymarfer a chyfnerthiad rhwng sesiynau. Mae angen adnoddau eraill i gyllido amser yr ymarferwr i ddarparu ymyriad. Bydd y gost yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau lleol.

Hyfforddiant ymarferwyr

Gellir cyflawni hyfforddi i hyfforddwyr mewn grwpiau o ddim mwy na 12 ymarferwyr. Dylai ymarferwyr sy'n derbyn hyfforddiant hyfforddwyr fod â gwybodaeth ddofn o sgiliau llythrennedd cynnar a dylen nhw fod yn hyfforddwyr effeithiol mewn ysgolion neu'n aelod o staff oddi fewn i awdurdod lleol. Unwaith mae hyfforddiant wedi ei gwblhau a hyfforddwyr wedi cyflawni a monitro effaith yr ymyriad mewn ysgolion, gall hyfforddwyr wneud cais am achrediad hyfforddwr proffesiynol (heb fod yn academiaidd) a allai eu rhestru fel hyfforddwyr cymwysedig gyda Fischer Education Project Ltd⁶⁵. Mae achrediad academiaidd i'w gael drwy Brifysgol Edge Hill.

Mae hyfforddiant i hyfforddwyr a chynorthwywyr addysgu i ddarparu ymyriad yn uniongyrchol i ddysgwyr hefyd yn cael ei ddarparu dros dri diwrnod. Fel arfer cyflwynir i glwstwr o ysgolion gydag athro/athrawes ac un neu fwy o gynorthwywyr addysgu yn mynychu o bob ysgol. Wedi cwblhau'r hyfforddiant, gall athrawon a chynorthwywyr addysgu wneud cais am achrediad academiaidd (drwy Brifysgol Edge Hill), wedi ei seilio ar eu gwaith yn yr ysgol. Mae'r lefel cymhwyster y maen nhw'n ei dderbyn yn dibynnu ar y lefel academiaidd maen nhw wedi ei gyrraedd yn flaenrol ac nid ar eu safle yn yr ysgol.

Seilir pob achrediad ar gyflenwi ymyriad mewn ysgol, neu oddi fewn i ysgol, neu oddi fewn i glwstwr o ysgolion. Nid yw mynychu hyfforddiant yn awtomatig yn arwain at achrediad.

Cynnwys yr hyfforddiant FFT Wave 3

- Diwrnod 1 – Asesu gweithdrefnau ar gyfer llythrennedd cynnar gan gynnwys Cofnodion wrth Fynd.
- Diwrnod 2 – Y broses ddarllen.
- Diwrnod 3 – Y broses ysgrifennu.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

⁶⁴ TAW a threuliau yn ychwanegol.

⁶⁵ Mae'r Fischer Education Project yn gweinyddu'r prosiectau a ddarperir gan y Fischer Family Trust neu drwy gyllido allanol o ffynonellau eraill.

Adnoddau addysgu ychwanegol a chymorth i ymarferwr

Mewn ymateb i faterion a godwyd yn ystod arsylliadau, a'r angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus a rheoli ansawdd mae Fischer Education Project Ltd wedi cynhyrchu *Continuing Professional Development Pack* sy'n cynnwys set o chwech sesiwn sy'n ymwneud ag amrywiaeth o bynciau i hyfforddwyr eu defnyddio yn y sesiynau dilynol. Mae'r pynciau'n cynnwys: cyflwyniadau llyfrau, arweiniad ar bryd i symud dysgwyr i'r lefel llyfr nesaf a dadansoddi Cofnodion wrth Fynd.

Yn ychwanegol datblygwyd *Supporting Schools – Parent Pack* ar gyfer ysgolion.

Mae'r ddau becyn adnoddau ar gael am gost ychwanegol.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ar y rhaglen FFT Wave 3 ewch i www.fischertrust.org/default.aspx

Reading Recovery

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Ymyriad effeithiol wedi ei seilio ar dystiolaeth i ddysgwyr pump a chwech oed, sydd â'r cyrhaeddiad llythrennedd isaf ymhlith eu cyfoedion ar ôl eu blwyddyn gyntaf o ysgol.
Tystiolaeth o effaith	Effaith tystiolaeth gadarn ar effeithiolrwydd a dylanwad hir barhaol yr ymyriad. Mae dysgwyr yn ennill ar gyfartaledd 24 mis yn eu hoedran darllen dros gyfnod o rhwng pedwar a phum mis.
Dull cyflawni	Sesiynau un-i-un wedi eu darparu'n ddyddiol am 30 munud gan athrawon sydd â sgiliau uchel mewn Reading Recovery ⁶⁶ .
Cymorth i ymarferwyr	Cwrs datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel blwyddyn o hyd, cofrestru gyda'r Sefydliad Addysg fel athro cymwysedig/athrawes gymwysedig Reading Recovery, a datblygiad proffesiynol pellach ar ôl y flwyddyn hyfforddiant gychwynnol.

Trosolwg o'r ymyriad

Mae Reading Recovery yn ymyriad llythrennedd tymor byr o ddwyster uchel i ddysgwyr ysgol gynradd tua chwech oed sy'n cael anawsterau i ddarllen ac ysgrifennu ar ôl eu blwyddyn gyntaf o ysgol. Datblygwyd Reading Recovery yn wreiddiol yn Seland Newydd a'i fabwysiadu fel menter y llywodraeth i ysgolion Seland Newydd yn 1983. Fe'i cyflwynwyd gyntaf i'r DU yn 1990 ac erbyn hyn mae'n sail ymyriad i Every Child a Reader (ECaR)⁶⁷.

Mae'r ymyriad yn canolbwyntio ar helpu dysgwyr i ddirnad gwybodaeth drwy ddarllen ac i gyfansoddi negeseuon drwy ysgrifennu, ac i ddysgu sut i ddeall manylion heb golli ffocws ar yr ystyr cyffredinol.

Nid yw'r deunyddiau a'r hyfforddiant ar gael ar hyn o bryd yn y Gymraeg ond mae hyfforddiant i ddarparu'r ymyriad yn Saesneg ar gael i ymarferwyr yng Nghymru.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

⁶⁶ Er mwyn hyfforddi a gweithio fel athro/athrawes Reading Recovery, mae gofyn i ymarferwyr gael statws athro cymwysedig/athrawes gymwysedig (yn y wlad ble mae Reading Recovery yn cael ei ddefnyddio).

⁶⁷ Mae ECaR yn strategaeth llythrennedd gynnar ar gyfer yr ysgol gyfan er mwyn codi cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 1 mewn ysgolion yn Lloegr.

Cynulleidfa darged

Cynlluniwyd yr ymyriad i ddysgwyr rhwng 5 mlwydd 9 mis a 6 blynedd 3 mis sydd ymhlith yr isaf o gyflawnwyr llythrennedd ar ôl eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol. Yn ôl Reading Recovery Europe targedir y dysgwyr sydd *'yn aml ddim yn gallu darllen y llyfrau symlaf neu hyd yn oed ysgrifennu eu henw ei hun cyn yr ymyriad.'*⁶⁸

Sail tystiolaeth yr effaith

Allan o 21,038 dysgwyr yn y DU ac Iwerddon a dderbyniodd wersi Reading Recovery yn ystod y flwyddyn academaidd 2010/11, ar ôl 18 wythnos (cyfartaledd o 36 awr o hyfforddiant un-i-un) roedd 79 y cant o ddysgwyr wedi dal i fyny â'u cyd-ddysgwyr. Yn yr yn cyfnod roedd y dysgwyr ar gyfartaledd wedi cynyddu o oedran darllen 4 mlynedd 10 mis i oedran darllen 6 blynedd 10 mis. Golyga hyn fod y cynnydd ar gyfartaledd yn 24 mis dros gyfnod rhwng pedwar a phum mis, sydd tua phum gwaith y raddfa gyffredin o gynnydd⁶⁹.

Yn ystod y chwe mis yn dilyn diwedd eu cyfres o wersi, heb ragor o ddysgu unigol, llwyddodd y dysgwyr a gwblhaodd y Rhaglen Reading Recovery yn llwyddiannus nid yn unig i gynnal y cynydd a wnaethon nhw yn ystod eu gwersi ond i barhau i wneud cynnydd cyson, gan ennill chwe mis yn eu hoedran darllen mewn chwe mis.

Dull cyflawni

Mae Reading Recovery yn golygu sesiynau dwys un-i-un gydag athro/athrawes hyfforddedig Reading Recovery am hanner awr bob dydd.

Gweithdrefn asesu

Hyfforddir athrawon Reading Recovery i weinyddu a dadansoddi ystod o asesiadau diagnostig er mwyn adnabod anghenion penodol pob dysgwr unigol i ddechrau ac ar ôl hynny i fesur cynnydd y rhaglen. Mae The Observation Survey of Early Literacy Achievement⁷⁰ yn asesu ymddygiadau darllen ac ysgrifennu cynnar mewn ffordd systematig; yr asesiad hwn a'r British Ability Scales Word Reading Test yw'r prif offer asesu a ddefnyddir mewn Reading Recovery.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

⁶⁸ Dyfyniad wedi'i gyfieithu o wefan Reading Recovery Europe yn <http://readingrecovery.ioe.ac.uk/about.html>

⁶⁹ Gweler *Every Child a Reader (ECaR) Annual Report 2010–11* (European Centre for Reading Recovery, Institute of Education, University of London) sydd ar gael yn http://readingrecovery.ioe.ac.uk/reports/documents/ECaR_annual_report_2010-11.pdf

⁷⁰ *An observation survey of early literacy achievement*, M M Clay (Portsmouth, NH: Heinemann, 2002, 2006).

Mae athrawon fel arfer yn defnyddio'r Phonological Assessment Battery (PhAB)⁷¹ a naill ai'r Writing Assessment Program (WrAP)⁷² neu rywbeth tebyg.

Fel rhan o'u datblygiad proffesiynol mae athrawon Reading Recovery yn cael eu hannog i gynyddu yr ystod o'r asesiadau maen nhw'n eu gweinyddu ac i gyfuno technegau asesu ar gyfer dysgu y maen nhw wedi eu hyfforddi'n ffurfiol i'w defnyddio gyda mesurau safonol eraill⁷³.

Bydd y Profion Darllen Cenedlaethol i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9, a gaiff eu cyflwyno yng Nghymru ym Mai 2013, yn cefnogi'r broses hon o asesiad cychwynnol.

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Mae dysgwyr fel arfer yn aros ar ymyriad Reading Recovery am rhwng 12 ac 20 wythnos.

Cost a gofynion adnoddau

O'i gymharu ag ymyriadau eraill i gynorthwyo datblygiad llythrennedd, mae Reading Recovery yn ddeunydd dwys o ystyried ei fod yn cynnwys sesiynau un-i-un am hanner awr a bod angen i'r sesiynau gael eu darparu gan athrawon cymwysedig a aeth ymlaen i gael eu hyfforddi fel athrawon Reading Recovery, h.y. **ni** fwriedir i'r ymyriad gael ei ddarparu gan gynorthwywyr addysgu. Mae costau hyfforddi'n amrywio i fod yn athro/athrawes Reading Recovery yn dibynnu ar y nifer o athrawon sy'n cael eu hyfforddi a chostau lleol (e.e. llogi lle i'w gynnal, ac ati), ond ar gyfartaledd mae'r hyfforddiant yn costio rhwng £1,200 a £1,400 fesul athro/athrawes.

Hyfforddiant ymarferwyr

I fod yn athro/athrawes Reading Recovery, mae athrawon yn mynychu rhaglen datblygu proffesiynol gorfodol achrededig Reading Recovery wedi ei dysgu gan arweinydd sy'n athro cymwysedig/athrawes gymwysedig. Mae'r hyfforddiant yn golygu presenoldeb rhan amser ar raglen ddwys am flwyddyn academiaidd lawn. Mae'r blwch ar dudalen 29 yn dangos prif elfennau'r hyfforddiant.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

⁷¹ Mae PhAB yn gyfres o chwech asesiad wedi eu cynllunio i asesu prosesu ffonolegol mewn plant unigol, ac i gymharu hyn gyda pherfformiad nodweddiadol plant o'r un oedran cronolegol.

⁷² Mae WrAP yn asesiad o'r gallu i adnabod gair a sgiliau ffonig.

⁷³ Er enghraifft, y British Ability Scales (BAS) Word Reading Test a'r Record of Oral Language (Clay et al., 1987).

Gofynion Rhaglen Ddatblygu Proffesiynol Reading Recovery

- Presenoldeb mewn 20 o sesiynau hyfforddiant asesu a hyfforddiant datblygu proffesiynol cychwynnol.
- Cwblhau set penodol o dasgau.
- Addysgu dysgwyr dan wylidwriaeth cydweithwyr tu ôl i sgrin un ffordd yn ystod sesiynau datblygu.
- Addysgu lleiafswm nifer o ddysgwyr yn ystod y flwyddyn hyfforddi mewn lleoliad ysgol.
- Ymweld â chydweithiwr, a derbyn ymweliad ysgol gan gydweithiwr, a derbyn ymweliadau ysgol gan arweinydd athrawon ynglŷn â chanllaw ac eglurder y gweithdrefnau priodol.
- Cyfathrebu â phersonél yr ysgol a rhieni/gofalwyr y dysgwyr.
- Cynnal cofnodion cynhwysfawr ar bob un dysgwr a chyflwyno data monitro fel y rhagnodir ac yn unol â chais.

Mae'r rhaglen datblygu proffesiynol yn gymhwyster a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Adnoddau dysgu ychwanegol a chymorth i ymarferwyr

Mae athrawon fel arfer yn defnyddio bwrdd gwyn mawr a llythrennau plastig yn ystod y gwaith gyda'r geiriau ac elfennau ffonig o'r rhaglen addysgu. Nid yw Reading Recovery yn cefnogi un cynllun darllen penodol, ac mae athrawon yn cael eu hannog i ddefnyddio deunydd darllen o ansawdd da sydd wedi ei gynllunio ar gyfer y rhai sy'n dysgu darllen ar draws ystod o gynlluniau.

Wedi cwblhau'r rhaglen datblygu proffesiynol cychwynnol yn llwyddiannus, mae'r athro/athrawes yn cael ei gofrestru yn y Sefydliad Addysg⁷⁴ fel athro/athrawes Reading Recovery. Mae athrawon Reading Recovery yn derbyn datblygiad proffesiynol pellach ar ôl y flwyddyn hyfforddiant, ac fel rhan o hyn maen nhw'n derbyn ymweliad ysgol blynyddol gan Arweinydd yr Athrawon. Gall athrawon Reading Recovery hefyd wneud cais am fwy o gymorth os oes ganddyn nhw ddysgwyr arbennig o heriol neu os oes angen cymorth ar yr ysgol gyda rheoli neu adnoddau.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ewch i <http://readingrecovery.ioe.ac.uk>

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

⁷⁴ Sefydlwyd y Sefydliad Addysg yn Llundain yn 1902 fel coleg hyfforddi athrawon ac mae nawr yn sefydliad ymchwil ac addysgu.

Talking Partners

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Dysgwyr o bob gallu rhwng 4 ac 11 oed, yn amrywio o anghenion addysgol arbennig (AAA) i ddysgwyr dawnus a thalentog; yn benodol y rhai nad oes ganddyn nhw hyder a/neu sgiliau siarad a gwrando.
Tystiolaeth o effaith	Wedi ei seilio ar ddata cynnydd a gesglir yn flynyddol o ysgolion ⁷⁵ sy'n cyflawni ymyriad, mae dysgwyr ar y rhaglen Talking Partners yn ennill 18 mis ar gyfartaledd o ran strwythur gramadeg a geirfa yn ystod y rhaglen ddeg wythnos ⁷⁶ .
Dull cyflawni	Sesiynau 25 munud a roddir i grwpiau bach deirgwaith yr wythnos gan gynorthwydd addysgu hyfforddedig dros gyfnod o ddeg wythnos.
Cymorth i ymarferwyr	Dau ddiwrnod o hyfforddiant cychwynnol i ymarferwyr (partneriaid) ac hanner diwrnod o gymorth dilynol ychwanegol; tri diwrnod o hyfforddiant i'r hyfforddwyr.

Trosolwg o'r ymyriad

Mae Talking Partners yn ymyriad iaith lafar mewn amser cyfyngedig sydd wedi ei chynllunio i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando, i wrando'n fwy gweithredol ac i siarad yn effeithiol i amrywiaeth o ddibenion. Mae'n ymyriad sy'n gymharol dymor byr gyda phwyslais ar helpu dysgwyr i ddod yn siaradwyr a gwrandawyr annibynnol a medrus.

Cafodd Talking Partners ei beilota gyntaf yn Bradford yn 1999 ac fe'i rheolir gan Education Works Ltd, ymgynghoriaeth addysgol sy'n arbenigo mewn gwella ysgol, cymorth darllen, a siarad a gwrando.

Mae Talking Partners yn un o sawl ymyriad a argymhellir gan Every Child a Reader (ECaR)⁷⁷.

Nid yw'r deunyddiau ymyriad a hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd ond mae'r hyfforddiant i gyflawni'r ymyriad yn Saesneg ar gael i ymarferwyr yng Nghymru.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

⁷⁵ Yn Lloegr.

⁷⁶ Sylwch fod y data cynnydd yn seiliedig ar y cwricwlwm yn Lloegr.

⁷⁷ Mae ECaR yn strategaeth llythrennedd gynnar ar gyfer yr ysgol gyfan er mwyn codi cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 1 mewn ysgolion yn Lloegr.

Cynulleidfa darged

Mae Talking Partners yn briodol i ddysgwyr sydd ag ystod eang o allu rhwng 4 ac 11 oed gan gynnwys y rhai nad oes ganddyn nhw y sgiliau a'r hyder fel siaradwyr a gwrandawyr yn gyffredinol, dysgwyr nad oes â llythrennedd emosiynol, dysgwyr Saesneg fel iaith ychwanegol a dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA), dysgwyr sydd â nam ar eu lleferydd neu nam ar y clyw, neu y rhai sydd ag ychydig o anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiad, yn ogystal â dysgwyr dawnus a thalentog. Addaswyd y rhaglen hefyd er mwyn ei defnyddio yn y Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar⁷⁸.

Sail tystiolaeth effaith

Mae angen i ysgolion sy'n cyflawni Talking Partners gasglu data tracio blynyddol ar gynnydd dysgwyr ac mae hwn yn cael ei goladu a'i ddadansoddi gan Education Works Ltd. Wedi'i seilio ar y data hwn mae dysgwyr⁷⁹ sy'n derbyn ymyriad yn ennill 18 mis ar gyfartaledd o ran strwythur gramadeg a geirfa⁸⁰, yn ystod y rhaglen ddeg wythnos.

Ag eithrio'r peilot ymchwil gwreiddiol, ni fu astudiaethau effaith annibynnol pellach yn defnyddio grŵp rheolydd i astudio'r effaith, ac ni chasglwyd data dilynol yn seiliedig ar y grŵp sampl.

Dull cyflawni

Fel rheol cyflawnir yr ymyriad i grwpiau o dri dysgwr gan gynorthwyydd addysgu brofiadol (Lefel 3 ac uwch Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC)) a fu ar y cwrs hyfforddi dwys dau ddiwrnod. Mae'r sesiynau yn rhoi cyfle i ddysgwyr i ymarfer ac adrodd iaith darged drwy amrywiaeth o weithgareddau ffocws pendant. Mae'r ymyriad yn tynnu sylw penodol at y cysylltiadau rhwng llafaredd a llythrennedd, ac yn galluogi dysgwyr i gyfathrebu ar lafar yn gliriach ac yn fwy annibynnol. Yr amcan yw cyflawni sesiynau Talking Partners sy'n cysylltu â dysgu yn y dosbarth, ac felly yn gwella dealltwriaeth, ymgysylltiad a hyder y dysgwyr.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

⁷⁸ Sylwer fod yr addasiad hwn o'r rhaglen hefyd yn addas i ddefnyddio yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru.

⁷⁹ Yn Lloegr.

⁸⁰ Sylwer fod y data cynnydd wedi'i seilio ar y cwricwlwm yn Lloegr.

Mae ethos y rhaglen wedi'i seilio ar yr egwyddor Vygotskian⁸¹ o sut mae pobl yn dysgu; mae'r cynorthwydd addysgu ('y partner') felly yn modelu ymddygiad siarad a gwrando da, o ran strwythur y frawddeg a geirfa yn rhannau cyntaf y rhaglen. Mae'r dysgwyr yn dod yn siaradwyr mwy annibynnol yn gynyddol yn ystod y deg wythnos, gyda pheth mewnbyn cadarnhaol gan y partner ble mae angen.

Rheolir y rhaglen gan gydlynnydd sydd wedi'i leoli yn yr ysgol, fel rheol aelod o'r uwch dîm rheoli, a fydd mewn sefyllfa i gynnal proffil y fenter yn yr ysgol drwy goladu tystiolaeth o effaith ac a fydd yn cefnogi'r partner(iaid).

Gweithdrefn asesu

Darperir canllaw ar asesu a monitro cynnydd i bartneriaid yn ystod yr hyfforddi i gyflawni Talking Partners. Cynghorir nhw i ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion gan gynnwys eu hadnabyddiaeth personol eu hunain o'r dysgwr; taflen arsylwi Talking Partners, ffurflen hunanwerthuso a chrynodeb o'r dysgwr fel siaradwr a gwrandäwr gweithredol; y Renfrew Action Picture Test⁸²; lefelau siarad a gwrando yn y cwricwlwm cynradd; deunyddiau asesu cynnydd disgyblion⁸³ recordiadau sain a gweledol; enghreifftiau o ysgrifennu dysgwyr ac asesiadau darllen a graddfeydd hyder.

O ran dewis dysgwyr i gymryd rhan mewn sesiynau Talking Partners, anogir partneriaid hefyd i ystyried dynameg y grŵp, e.e. sicrhau nad yw'r grŵp yn cynnwys siaradwyr anhyderus yn unig neu ddysgwyr sy'n eithriadol o ormesol yn y dosbarth.

O ran monitro'r cynnydd, mae'r Renfrew Action Picture Test yn darparu sgoriau sy'n berthnasol o ran oedran ar allu i siarad a gwrando ac fe'i defnyddir cyn ac ar ôl ymyriad i fesur cynnydd. Bydd partneriaid hefyd yn edrych ar lefelau siarad a gwrando, a lefelau ysgrifennu a darllen yn y cwricwlwm cynradd⁸⁴ (a geir gan athro dosbarth/athrawes ddosbarth y dysgwr) wrth asesu cynnydd.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

⁸¹ Roedd Lev Vygotsky (1896–1934) yn seicolegwyr ac addysgwyr o Rwsia, oedd yn credu fod rhyngweithio cymdeithasol yn chwarae rôl sylfaenol mewn datblygu gwybyddiaeth (cofio, datrys problemau, cynllunio a meddwl yn haniaethol) ac mai iaith yw'r offeryn seicolegol pwysicaf sy'n dylanwadu ar ddatblygiad gwybyddiaeth plant.

⁸² Roedd Renfrew Action Picture Test yn gofyn i blant rhwng tair ac wyth oed i ddisgrifio llun mewn un frawddeg, ac wedyn yn asesu hyd a chymhlethdod strwythur y frawddeg lafar.

⁸³ Mae asesu cynnydd disgyblion yn ddull asesu a ddatblygwyd ac a safonwyd yn genedlaethol sy'n ceisio darparu fframwaith, ac oddi fewn i'r fframwaith hon gall athrawon wneud penderfyniadau am safon gwaith eu dysgwyr a chynllunio gweithgareddau dysgu i'r dyfodol.

⁸⁴ Sylwer fod y lefelau cwricwlwm cynradd a ddyfynnir yma yn cyfeirio at y cwricwlwm yn Lloegr.

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Mae dysgwyr fel rheol yn mynychu sesiynau 25 munud deirgwaith yr wythnos a gweithredir yr ymyriad dros gyfnod o ddeg wythnos. Mae Talking Partners hefyd wedi cael ei addasu ar gyfer ei ddefnyddio yn y Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar⁸⁵ ble byddai ymyriad yn digwydd mewn sesiynau byrrach ond amlach (h.y. sesiynau 15 munud bum diwrnod yr wythnos).

Cost a gofynion adnoddau

Cyflawnir yr hyfforddiant dau ddiwrnod i bartneriaid gan hyfforddwr Talking Partners⁸⁶ mewn ysgol ac mae'n costio £600⁸⁷ fesul diwrnod i sesiwn grŵp (20 yw tua'r uchafswm). Mae hefyd yn angenrheidiol i bob partner hyfforddedig brynu ffeil gyda profformâu ar gyfer cofnodi cynnydd ac adnoddau angenrheidiol eraill sydd eu hangen i gyflawni ymyriad ar gost bellach o £57.50⁸⁸.

Mae hyfforddi hyfforddwyr am dri diwrnod yn costio £750 y diwrnod⁸⁹. Mae DVD PowerPoint gyda nodiadau hyfforddwr a sesiynau addysgu, CD y cydlynnydd, ffeil hyfforddi dau ddiwrnod a'r pecyn adnoddau i gyflawni hyfforddiant Talking Partners yr ymarferwyr eraill yn costio £167.50 ychwanegol fesul person. Cyflenwir y rhain gan Education Works Ltd ac fe'i dosberthir yn ystod y cwrs hyfforddi. Gellir archebu adnoddau dau ddiwrnod gan Education Works Ltd fel a phan fo'r angen, naill ai gan yr hyfforddwr neu'n uniongyrchol gan yr ysgol sy'n derbyn yr hyfforddiant.

Mae angen adnoddau ychwanegol i gyllido amser y cynorthwydd addysgu ar gyfer cyflenwi. Bydd hyn yn cynnwys amser ar gyfer y sesiynau eu hunain, yn ogystal ag amser ychwanegol i ddadansoddi'r cofnodion cynnydd, cynllunio sesiynau a chysylltu â'r athro dosbarth/athrawes ddosbarth a chydlynnydd Talking Partners yr ysgol.

Hyfforddiant ymarferwyr

Datblygwyd hyfforddi Talking Partners gan Education Works Ltd. Mae cynorthwywyr addysg profiadol (Lefel 3 ac uwch Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC)) neu gynorthwywyr addysgu lefel uwch yn mynychu dau ddiwrnod o hyfforddiant dwys, a gyflenwir

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

⁸⁵ Sylwer fod yr addasiad hwn o'r rhaglen hefyd yn addas i ddefnyddio yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru.

⁸⁶ Gall hyn fod yn ymgynghorwr o Education Works Ltd neu'n rhywun sydd wedi ei hyfforddi fel hyfforddwr gan Education Works Ltd.

⁸⁷ Treuliau a TAW yn ychwanegol.

⁸⁸ TAW, postio a phacio yn ychwanegol.

⁸⁹ Treuliau a TAW yn ychwanegol.

gan Education Works Ltd neu rywun a hyfforddwyd fel hyfforddwr gan Education Works Ltd. Mae disgwyl i'r athro/athrawes fydd yn gweithredu fel cydlynnydd yr ysgol i fynychu'r hyfforddiant; mewn ysgolion ECaR yn Lloegr neu ysgolion sydd hefyd yn cyflenwi Reading Recovery⁹⁰, hwn yw'r athro/athrawes Reading Recovery fel rheol. Mae pob ymarferwr sydd wedi eu hyfforddi yn derbyn pecyn hyfforddi sy'n cynnwys disgrifiad llawn o'r gweithgareddau, fframweithiau ar gyfer deunyddiau addysgu ac asesu i gefnogi'r cyflawni a mesur ei effaith. Gall hyfforddwyr Talking Partners fod yn ymgynghorwyr, penaethiaid, arweinyddion athrawon Reading Recovery neu uwch weithwyr proffesiynol addysgol eraill.

Cynnwys y cwrs hyfforddi dau ddiwrnod Talking Partners

- Arsylwi dwy wers.
- Gwybodaeth ar bwysigrwydd siarad.
- Datblygu sgiliau holi.
- Gweithgareddau ymarferol.
- Offer asesu.
- Cynllunio a chadw cofnodion.

Mae hyfforddwyr Talking Partners yn gallu ymgeisio am yr Achrediad Safon Aur (heb fod yn academiaidd) a sefydlwyd mewn partneriaeth rhwng Education Works Ltd a'r Sefydliad Addysg⁹¹.

Bydd cymhwyster Lefel 4 Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) ar gael yn fuan ar gyfer partneriaid sydd wedi eu hyfforddi (drwy Brifysgol Edge Hill) a fydd yn cyfri fel 30 o gredydau tuag at radd.

Adnoddau addysgu ychwanegol a chymorth i ymarferwyr

Mae ffeil CD cydlynnydd i gefnogi sefydlu a chynnal Talking Partners yn costio £25⁹² ac yn cynnwys gwybodaeth ar arfer gorau; mae angen un ffeil ym mhob ysgol sy'n cyflenwi Talking Partners.

Mae pecyn adnoddau cychwynnol Talking Partners dewisol y gellir ei rannu rhwng partneriaid hyfforddedig, sydd â lluniau, diagramau, gridiau a mapiau, ac mae'n costio £35⁹³.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

⁹⁰ Gweler y grynodedb ar wahân o Reading Recovery.

⁹¹ Sefydlwyd y Sefydliad Addysg yn Llundain yn 1902 fel coleg hyfforddi athrawon ac mae nawr yn sefydliad ymchwil ac addysgu.

⁹² TAW, post a phacio yn ychwanegol.

⁹³ TAW, post a phacio yn ychwanegol.

Mae ysgolion hefyd yn gallu derbyn hyfforddiant cyffredinol ar siarad a gwrando i bawb o'r staff sydd wedi ei deilwra i ysgolion unigol; byddai maint y staff ac anghenion penodol yr ysgol yn adlewyrchu natur yr hyfforddiant o ran cynnwys ac amserlenni, ac yn ei dro cost yr hyfforddiant. Anogir ysgolion hefyd i gynnal archwiliad o'r ysgol gyfan ar siarad a gwrando, er mwyn darparu gwybodaeth wrth gynllunio manylion y prosiect. Gwneir yr archwiliad fel rheol **cyn** hyfforddiant Talking Partners i sicrhau fod arfer dosbarth cyfan yn effeithiol cyn cyflwyno rhaglen ymyriad.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ewch i

www.educationworks.org.uk/what-we-do/speaking-and-listening/talking-partners.html

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

TextNow®

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Pobl ifanc 11–19 oed sydd heb y sgiliau a/neu heb yr hyder i ddarllen. Mae'n arbennig o briodol i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddatgysylltu eu hunain oddi wrth addysg.
Tystiolaeth o effaith	Wedi ei seilio ar ddata a gasglwyd oddi wrth 425 o ddysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd ⁹⁴ a gwblhaodd TextNow® yn ystod y cyfnod o 2008 i 2011, y cynnydd ar gyfartaledd mewn oedran darllen oedd 20.1 mis sydd o'i drosglwyddo yn troi'n gymhareb cynnydd ⁹⁵ o 5.7 mis.
Dull cyflawni	Sesiynau darllen un-i-un o 20 munud, wedi eu darparu'n ddyddiol gan hyfforddwyr hyfforddedig am gyfnod o ddeg wythnos.
Cymorth i ymarferwyr	Ceir mynediad ar-lein i hyfforddiant heb fod yn achrededig TextNow® sy'n cymryd tua hanner diwrnod i'w gwblhau.

Trosolwg o'r ymyriad

Mae TextNow® yn raglen ddarllen ysgogol i gynorthwyo pobl ifanc i dyfu'n ddarllenwyr mwy hyderus ac abl drwy gymorth rheolaidd ac wedi ei ganolbwyntio ar gymorth un-i-un. Datblygwyd TextNow® yn 2008 gan Unitas⁹⁶ ac amcanion penodol⁹⁷ y rhaglen yw i:

- ysgogi pobl ifanc i ddarllen, gan gynyddu eu mwynhad o ddarllen ac felly gwella eu sgiliau darllen
- cynorthwyo pobl ifanc i ddewis deunydd darllen addas ac i wneud synnwyr ohono drwy drafodaeth a gweithgareddau eraill
- codi eu hyder a hunanbarch mewn darllen drwy ysgogi bobl ifanc i chwilio am wahanol ddeunyddiau darllen, darllen ar eu pen eu hunain a chanfod y gwasanaethau sydd ar gael fel llyfrgelloedd a siopau llyfrau ar-lein.

Defnyddiwyd TextNow® gan ysgolion, colegau, ysgolion arhosiad byr a darpariaeth addysgol amgen arall, darparwyr hyfforddiant, timau troseddau ieuenctid, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

⁹⁴ Yng Nghymru a Lloegr.

⁹⁵ Cymhareb cynnydd yw cynnydd cymedrig yn oedran darllen y grŵp mewn misoedd wedi ei rannu â'r amser rhwng y rhag a'r ôl brawf mewn misoedd.

⁹⁶ Mae Unitas yn elusen cenedlaethol sy'n helpu pobl ifanc i gael mynediad, cymryd rhan a gwella mewn addysg a hyfforddiant prif ffrwd.

⁹⁷ *TextNow Evaluation Report 2008–11*, G Brooks a R Tarling (Unitas, 2012), tud.4.

Nid yw deunyddiau ymyriad a hyfforddiant ar-lein ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd, ond mae hyfforddiant ar-lein i gyflawni ymyriad yn Saesneg ar gael i ymarferwyr yng Nghymru.

Cynulleidfa darged

Bwriadwyd TextNow® ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 19 oed sydd heb sgiliau a/neu hyder i ddarllen neu sy'n dangos diffyg diddordeb mewn darllen neu ddim mwynhad wrth ddarllen. Mae'n arbennig o briodol i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddatgysylltu eu hunain oddi wrth addysg ac fe'i defnyddir hefyd yn gyffredin gyda throseddwy'r ifanc a phlant sy'n derbyn gofal.

Mae TextNow® fel arfer yn cael ei ddefnyddio gyda dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3, er ei fod wedi cael ei ddefnyddio gydag unigolion dros 19 oed, ac mae'n offeryn trawsnewid a ddarperir yn ystod ysgolion haf i ddysgwyr sy'n dod i Flwyddyn 7 yn y mis Medi canlynol.

Sail tystiolaeth effaith

Ers lansio yr ymyriad yn 2008, casglwyd y data a'i ddadansoddi gan Unitas a Greg Brooks⁹⁸. Casglwyd y data am 696 o bobl ifanc⁹⁹ o oedran ysgol uwchradd yn bennaf¹⁰⁰, a gwblhaodd y rhaglenni TextNow® yn 2008–09, 2009–10 a 2010–11. Wedi ei seilio ar ddata'r sampl cyfan, y cynnydd cymharol yn oedran darllen dros raglen deg wythnos oedd 18.7 mis. Y cynnydd cymharol mewn oedran darllen fesul mis ar y rhaglen (adwaenir fel cymhareb cynnydd) oedd 5.5 mis.

I ddysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd **yn unig**, dros y cyfnod 2008–11, y cynnydd cyfartalog mewn oedran darllen oedd 20.1 mis a'r gymhareb cynnydd oedd 5.7 mis.

Nid oes data swyddogol wedi ei seilio ar grŵp cymhariaeth na fu iddyn nhw dderbyn cymorth o gwbl neu a dderbyniodd gymorth o fath amgen, na data dilyniant wedi ei seilio ar y grŵp sampl.

Dull cyflawni

Bydd pobl ifanc yn mynychu sesiynau 20 munud wedi eu darparu bum diwrnod yr wythnos ar sail un-i-un gan hyfforddwr hyfforddedig. Gall hyfforddwy'r fod yn athrawon, cynorthwywyr

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

⁹⁸ Mae Greg Brooks yn Athro Addysg Emeritws ym Mhrifysgol Sheffield.

⁹⁹ Yng Nghymru a Lloegr.

¹⁰⁰ Roedd eraill yn y sampl yn cynnwys dysgwyr mewn ysgolion arbennig, troseddwy'r ifanc, dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion a phlant sy'n derbyn gofal.

addysgu, gwirfoddolwyr neu ddysgwyr hŷn yn yr ysgol sy'n gweithredu fel mentoriaid cyfoedion. Mae cydlynnydd prosiect dynodedig yn rheoli darpariaeth y rhaglen ar bob safle.

Nid yw TextNow® yn ymyriad sydd wedi ei seilio ar sgiliau, ac mae'n canolbwyntio ar fwynhad yn hytrach na mecaneg darllen. Yn ystod hyfforddiant yr ymarferwr, fodd bynnag, bydd strategaethau yn cael eu rhoi i hyfforddwyr ddarparu cymorth ymyriad lefel geiriau.

Gall hyfforddwyr addasu'r dull i weddu i'r person ifanc a gall natur y sesiynau felly amrywio. Gall sesiynau ddechrau gyda'r hyfforddwr yn gofyn i'r person ifanc sut mae'n dewis llyfr a pha fath o lyfr sydd at ei ddant. Gall y sesiynau gynnwys darllen wedi ei rannu a thrafodaeth o'r testun yn dilyn. Y bwriad allweddol yw cynorthwyo pobl ifanc i fwynhau darllen mwy.

Cynlluniwyd y rhaglen i annog darllenwyr anfodlon, a'r mecaneg ysgogol allweddol i hyn yw Cynllun Gwobrwyo. Mae pobl ifanc yn cael eu gwobrwyo am gymryd rhan ar y rhaglen drwy dderbyn credydau o hyd at £25 tuag at lyfrau o system ar-lein MyChoice! Mae'r siop lyfrau ar-lein yn cynnig dewis o dros 3,000 o lyfrau o wahanol genres ac oddi wrth amryw o gyhoeddwr. Gall bobl ifanc gael mynediad i'r siop lyfrau ar-lein ac edrych ar yr wybodaeth am lyfrau sy'n eu diddori, gan gynnwys canllaw i anhawster darllen, crynodeb o'r cynnwys, y math o argraffiad, tudalen sampl a gorchudd llyfr, er mwyn iddyn nhw ddewis y llyfr mwyaf priodol.

Mae Unitas ar hyn o bryd ar y cam datblygu o ran cyflwyno llyfrau yn y Gymraeg i'r siop lyfrau ar-lein.

Gweithdrefn asesu

Asesir pobl ifanc ar ddechrau ac ar ddiwedd yr ymyriad gan ddefnyddio NFER Single Word Reading Test 6–16. Maen nhw hefyd yn cwblhau holiaduron agweddol ar ddechrau ac ar ddiwedd y rhaglen sy'n ymchwilio agweddau pobl ifanc tuag at ddarllen. Mae canlyniadau'r asesiad ac arolwg yn cael eu lanlwytho ar wefan TextNow®, ac mae Unitas yn darparu adroddiad cyffredinol yn dangos cynnydd dysgwyr unigol yn yr ysgol a sut mae hyn yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd drwy TextNow®.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Darperir TextNow® mewn sesiynau 20 munud am gyfnod o ddeg wythnos.

Cost a gofynion adnoddau

Mae'n costio £35 fesul person ifanc sy'n mynd drwy'r cwrs ac mae angen i leiafswm o ddeg o bobl ifanc i gymryd rhan fesul cohort. Dyma'r gwariant cyfan sydd ei angen i hyfforddi'r hyfforddwyr ac i gael mynediad i'r holl ddeunyddiau sy'n angenrheidiol i ddarparu'r ymyriad. Mae hefyd yn cynnwys y gost am y gwerth £25 o greydau am bob person ifanc sy'n prynu llyfrau o siop lyfrau ar-lein TextNow®. Pan fydd ysgolion ar y cychwyn cyntaf yn arwyddo i TextNow®, maen nhw'n derbyn £100 mewn credyd i'r siop lyfrau ar-lein MyChoice! i ddechrau sefydlu llyfrgell. Maen nhw hefyd yn derbyn y NFER Single Word Reading Test 6–16 heb gost ychwanegol.

Hyfforddiant ymarferwyr

Ceir mynediad ar-lein i hyfforddiant heb ei achredu i ddefnyddio TextNow® ac felly gall ymarferwyr ei gwblhau mewn camau, ar gyflymder sy'n gweddu iddyn nhw. Yn gyfan gwbl mae'n cymryd tua hanner diwrnod i gwblhau'r hyfforddiant.

Nid yw'r hyfforddiant yn cael ei achredu ond mae tystysgrif ar gael i'w lawrlwytho wedi cwblhau, a chynhwysir y gost yn yr hyn mae ysgolion yn ei dalu fesul dysgwr (gweler yr adran uchod 'Cost a gofynion adnoddau').

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ewch i www.unitas.uk.net/TextNow

Rhaglenni dal i fyny rhifedd

Rhifedd Dyfal Donc (Catch Up®¹⁰¹ Numeracy drwy gyfrwng y Gymraeg)

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Ymyriad effeithiol ar sail tystiolaeth i ddysgwyr 6 i 14 oed sy'n cael rhifedd yn anodd.
Tystiolaeth o effaith	Tystiolaeth effaith gadarn ar effeithiolrwydd yr ymyriad yn nhermau gwelliant academiaidd ac ymddygiad dysgwyr; dros gyfnod cyfartalog o 4.7 mis llwyddodd dysgwyr i gyrraedd enillion oedran rhif/mathemateg o 10.2 mis ar gyfartaledd.
Dull cyflawni	Ymyriad strwythuredig sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac a drosglwyddir ddwywaith yr wythnos mewn sesiynau chwarter awr, un-i-un gan athrawon neu gynorthwywyr addysgu ¹⁰² .
Cymorth i ymarferwyr	Hyfforddiant ymarferwyr o safon uchel wedi ei achredu, gyda chefnogaeth gydol oes drwy Gymuned Catch Up®.

Trosolwg o'r ymyriad

Ymyriad rhifedd yw Catch Up® Numeracy a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Catch Up®¹⁰³, elusen gofrestrdig¹⁰⁴ ddielw yn y DU gydag ymchwilwyr o Brifysgol Rhydychen yn 2008¹⁰⁵. Disgrifiwyd Catch Up® Numeracy fel *'ymyriad sy'n galluogi dysgwyr sy'n cael rhifedd yn anodd i gyrraedd mwy na dwbl y cynnydd gan ddysgwyr sy'n datblygu'n nodweddiadol.'*¹⁰⁶ Mae Catch Up® Numeracy yn mynd i'r afael ag elfennau craidd rhifedd, gan gynnwys: cyfiri; cymharu rhifau; degau ac unedau; trefnolion; problemau geiriol; amcangyfrifon; ffeithiau a gofiwyd; a ffeithiau deilliadol.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012
Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

¹⁰¹ Catch Up® yw nod masnach cofrestrdig (2563819) Ymddiriedolaeth Caxton (enw gweithredol yw Catch Up®).

¹⁰² Wedi eu seilio ar gofnodion hyfforddi Catch Up®, mae traean yr hyfforddeion yn athrawon a dwy ran o dair yn gynorthwywyr addysgu.

¹⁰³ Elusen ddielw yw Catch Up® sy'n anelu at fynd i'r afael â phroblem tangyflawni sy'n tarddu o anawsterau llythrennedd a rhifedd. Roedd y datblygiad wedi ei gyllido'n rhannol gan Sefydliad Esmée Fairbairn.

¹⁰⁴ Rhif Elusen: 1072425.

¹⁰⁵ Mae'r holl hawlfraint a pherchnogaeth gyfreithiol o'r ymyriad ym mherchnogaeth Ymddiriedolaeth Caxton/Catch Up® yn unig.

¹⁰⁶ Dyfyniad wedi'i gyfieithu o lawlyfr Catch Up™ sydd ar gael yn www.catchup.org.uk/CatchUpNumeracy/IntroducingCatchUpNumeracy.aspx

Fersiwn cyfrwng Cymraeg Catch Up® Numeracy yw Rhifedd Dyfal Donc. At bwrpas y ddogfen ganllawiau hyn, defnyddir y term 'Rhifedd Dyfal Donc'; fodd bynnag, oni nodir yn wahanol, mae'r wybodaeth a roddir yr un mor wir am fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ymyriad rhifedd.

Mae'r deunyddiau ymyriad a'r hyfforddiant ar gael yn Gymraeg a Saesneg i ymarferwyr yng Nghymru.

Cynulleidfa darged

Cynlluniwyd Rhifedd Dyfal Donc ar gyfer dysgwyr 6 i 14 oed sy'n cael rhifedd yn anodd. Mae'r ymyriad, fodd bynnag, fel rheol yn cael ei wneud ym Mlynedd 2 a 3 yn unig. Y brif gynulleidfa darged yw dysgwyr sy'n tangyflawni ac sydd angen cymorth ychwanegol i wella i lefel eu cyfoedion. Mae'r ymyriad yn briodol i ddysgwyr sydd â'u hoedran rhif/mathemateg yn arwyddocaol is na'u hoedran cronolegol. Mae Rhifedd Dyfal Donc wedi ei gynllunio ar gyfer unigolion sy'n cael rhifedd yn anodd yn hytrach na dysgwyr sy'n dechrau dysgu rhifedd.

Sail tystiolaeth effaith

Gwerthuswyd Rhifedd Dyfal Donc yn helaeth ac mae wedi dangos ei fod yn effeithiol mewn ysgolion a lleoliadau eraill ledled y DU fel ymyriad effeithiol i ddysgwyr sy'n cael rhifedd yn anodd. Mae data ar gael gan Catch Up®¹⁰⁷ yn ogystal â ffynonellau eraill¹⁰⁸.

Yn yr ymchwil diweddaraf¹⁰⁹ fe wnaeth sampl o 358 o ddysgwyr ysgolion cynradd o 15 o awdurdodau lleol¹¹⁰ a dderbyniodd Rhifedd Dyfal Donc am gyfnod cyfartalog o 4.9 mis lwyddo i ddangos cynnydd o 11.3 mis ar gyfartaledd mewn oedran rhif/mathemateg; sy'n gyfwerth â chynnydd o 2.2¹¹¹ yn y gymhareb. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys dau grŵp rheolydd, ac aseswyd newidiadau yn yr oedran rhif/mathemateg dros yr un cyfnod fwy neu lai; ymysg yr 50 o ddysgwyr a dderbyniodd waith mathemateg unigol¹¹² am yr

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012
Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

¹⁰⁷ www.catchup.org/Sharingsuccess/Researchbibliography.aspx

¹⁰⁸ Er enghraifft, *What Works for Children with Mathematical Difficulties? The effectiveness of intervention schemes*, A Dowker (Prifysgol Rhydychen, 2009).

¹⁰⁹ Rhwng 2008 a 2011.

¹¹⁰ Yng Nghymru a Lloegr.

¹¹¹ *Applications of neuroscience to mathematics interventions*, A Dowker, RC Kadosh a W Holmes (Prifysgol Rhydychen, 2011).

¹¹² Roedd gwaith mathemateg unigol fel rheol yn golygu gwaith adolygu a wnaed yn ystod y wers ysgol ac nid oedd wedi ei dargedu'n benodol i asesu cryfderau a meysydd i'w gwella.

un faint o amser fesul wythnos â'r rhai oedd yn gwneud Rhifedd Dyfal Donc am gyfnod cyfartalog o 4.6 mis roedd yr ennill oedran rhif/mathemateg ar gyfartaledd yn 7 mis. Ymysg y 42 dysgwr na dderbyniodd ymyriad am gyfnod cyfartalog o 4.6 mis yr ennill cyfartalog oedran rhif/mathemateg oedd 6.3 mis. Ni chasglwyd data dilynol wedi ei seilio ar y grŵp sampl.

Mewn astudiaeth¹¹³ o Rhifedd Dyfal Donc cymharwyd yr ennill cymhareb mewn oedran rhif/mathemateg¹¹⁴ i ddysgwyr oedd yn derbyn cymorth Rhifedd Dyfal Donc â'r ennill cymhareb ar gyfer dau grŵp arall o ddysgwyr. Derbyniodd y grŵp cyntaf (y grŵp oedd yn cael yr un amser) yr un dyraniad amser a ragnodwyd â'r Rhifedd Dyfal Donc ar ffurf gwaith mathemateg unigol heb fod wedi ei dargedu. Roedd y trydydd grŵp (y grŵp rheolydd) yn parhau gyda'r mewnbwn arferol gan eu hathrawon, h.y. nid oedden nhw'n derbyn unrhyw gymorth ychwanegol. Roedd y ddau sampl yn cynnwys dysgwyr oedd wedi cael eu canfod gan athrawon fel rhai oedd yn cael anawsterau gyda rhifyddeg.

Fe wnaeth y dysgwyr¹¹⁵ a dderbyniodd gymorth Rhifedd Dyfal Donc ddangos cymhareb cynnydd oedran rhif/mathemateg¹¹⁶ o 2.2; roedd hyn yn cymharu ar gyfartaledd â chymhareb cynnydd i ddysgwyr yn y grŵp oedd yn cael yr un amser¹¹⁷ o 1.47 a chyfartaledd cymhareb cynnydd i ddysgwyr yn y grŵp rheolydd¹¹⁸ o 1.25.

Dull cyflawni

Mae Rhifedd Dyfal Donc yn ymyriad strwythuredig sy'n golygu sesiynau addysgu un-i-un sy'n cynnwys eglurhad, modelu, gweithgaredd, trafodaeth, holi a chofnodi.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012
Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

¹¹³ *Targeted interventions for children with arithmetical difficulties*, A Dowker a G Sigley (The British Psychological Society, 2010).

¹¹⁴ Mae'r gymhareb ennill yn hafal i'r misoedd a enillir mewn oed mathemateg wedi'i rannu â nifer y misoedd rhwng y profion cyntaf a'r olaf.

¹¹⁵ Roedd cyfanswm o 154 o ddysgwyr rhwng 6 a 10 yn y sampl oedd yn derbyn cymorth Rhifedd Dyfal Donc.

¹¹⁶ Cyfrifwyd oedran rhif/mathemateg dysgwyr drwy ddefnyddio Prawf Sgrinio Rhif Gillham a Hesse.

¹¹⁷ Roedd cyfanswm o 50 o ddysgwyr rhwng 6 a 10 oed yn y grŵp amser wedi'i gydweddu.

¹¹⁸ Roedd cyfanswm o 42 o ddysgwyr rhwng 6 a 10 oed yn y grŵp rheolydd.

Y pedwar cam o drosglwyddo Rhifedd Dyfal Donc

Mae Cam 1 yn golygu asesiadau ar gyfer dysgu er mwyn gosod targedau a chanfod y man cychwyn priodol i'r ymyriad. Bydd y Profion Rhifedd Cenedlaethol i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9, a gaiff eu cyflwyno yng Nghymru ym Mai 2013, yn cefnogi'r broses asesiad dechreuol.

Yng Ngham 2 mae'r ymarferwr yn canfod ffocws priodol i'r ymyriad rhifedd. Defnyddir y canlyniadau o'r asesiadau rhifedd i greu proffil dysgwr Rhifedd Dyfal Donc ac i ddewis gweithgareddau rhifedd priodol. Mae gan ymarferwyr hyfforddedig Rhifedd Dyfal Donc fynediad i amrywiaeth o weithgareddau ar y gronfa ddata o weithgareddau ar-lein Rhifedd Dyfal Donc sy'n ymwneud â'r deg elfen allweddol o rifedd ac wedi eu graddio i lefelau Rhifedd Dyfal Donc. Mae'r gronfa ddata yn cynnwys deunydd Wave 3 o'r Strategaeth Rhifedd Lloegr blaenorol yn ogystal ag eraill a ddatblygwyd gan Catch Up®. Gall ysgolion ddatblygu eu hadnoddau eu hunain neu ddefnyddio deunyddiau masnachol.

Cam 3 yn ei hanfod yw trosglwyddo sesiwn 15 munud un-i-un dwywaith yr wythnos. Mae pob sesiwn yn golygu tri munud o adolygu a chyflwyno, chwe munud ar weithgaredd rhifedd a'r chwe munud olaf ar ymarfer a gofnodir wedi'i gysylltu.

Mae Cam 4 yn golygu monitro parhaus, ble dychwelir at yr asesiadau ar gyfer dysgu ac adolygir targedau Rhifedd Dyfal Donc yn unol â hynny.

Gweithdrefn asesu

Mae ymarferwyr sydd wedi eu hyfforddi mewn Rhifedd Dyfal Donc â mynediad i fanc o asesiadau sy'n hawdd eu rhoi ar waith i asesu perfformiad dysgwyr mewn elfennau craidd rhifedd ac i bennu anghenion dysgwyr unigol. Defnyddir y canlyniadau o'r asesiadau ar gyfer dysgu hyn i osod targedau Rhifedd Dyfal Donc ac i adnabod y man cychwyn priodol ar gyfer yr ymyriad.

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Mae sesiynau Rhifedd Dyfal Donc yn para 15 munud yr un ac yn cael eu darparu ddwywaith yr wythnos gan ymarferwyr Rhifedd Dyfal Donc hyfforddedig.

Cost a gofynion adnoddau

Darperir Rhifedd Dyfal Donc drwy ddull un-i-un, er bod nifer y dysgwyr mae pob ymarferwr hyfforddedig yn eu cefnogi yn amrywio o ysgol i ysgol.

Cyfrifwyd cost cyfartalog Rhifedd Dyfal Donc gan yr elusen Catch Up® ac mae'n seiliedig ar gost hyfforddi ymarferwyr a chost cyflawni o ran amser staff. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r gost sy'n gysylltiedig â gweithredu a chyflawni Rhifedd Dyfal Donc mewn ysgol nodweddiadol yn llai na £130 fesul dysgwr sy'n cael rhifedd yn anodd. Ceir profforma ar wefan Catch Up® a gellir ei diwygio o ran nifer yr ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi, nifer yr ymarferwyr hyfforddedig fesul dysgwr fesul blwyddyn a chostau staff.

Hyfforddiant ymarferwyr

Dim ond fel rhan o becyn hyfforddi ac adnoddau cynhwysfawr y ceir Rhifedd Dyfal Donc, a darperir hyfforddiant gan hyfforddwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan Rhifedd Dyfal Donc. Gall ymarferwyr (gan gynnwys athrawon a chynorthwywyr addysgu neu gynorthwywyr cefnogi dysgu) archebu lle mewn digwyddiad hyfforddi wedi'i drefnu (yn ddibynnol ar argaeledd). Gellir trefnu sesiynau Rhifedd Dyfal Donc ychwanegol i isafswm o ddeg aelod o'r staff o ysgolion unigol, o glystyrau o ysgolion neu o leoliadau eraill.

Mae costau hyfforddi Rhifedd Dyfal Donc yn costio £350 i bob un sy'n cael ei hyfforddi, ac mae'n cynnwys:

- yr hyfforddiant ei hun, a ffioedd achredu OCN
- ffeil ac enw defnyddiwr a chyfrinair unigryw i wefan Catch Up® Numeracy, sy'n darparu mynediad i'r holl ganllawiau a profformâu sydd eu hangen i ddarparu a rheoli'r ymyriadau
- aelodaeth o'r Gymuned Catch Up® a chymorth gydol oes
- tri chredyd tuag at gemau digidol Catch Up®
- cyfle i gyflwyno cais ar gyfer Gwobrau Rhagoriaeth Catch Up®.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

Pedair elfen hyfforddiant Rhifedd Dyfal Donc

Rhan 1 (N1) yw 'Cyflwyno Rhifedd Dyfal Donc' ac mae'n darparu trosolwg ar Rhifedd Dyfal Donc a gweithredu a rheoli'r ymyriad. Mae N1 ar gyfer uwch-reolwyr ac aelodau o'r staff a fydd yn rheoli'r ymyriad. Mae'r sesiwn gwybodaeth yn para 90 munud ac mae'n rhad ac am ddim.

Rhan 2 (N2) yw 'Cyflenwi Rhifedd Dyfal Donc' ac mae ar gyfer staff a fydd yn cyflenwi Rhifedd Dyfal Donc ac aelodau o'r staff a fydd yn rheoli'r ymyriad. Mae N2 yn cynnwys tair sesiwn hanner diwrnod (gyda thasgau dilynol) ac mae'r sesiynau yn rhoi sylw i gefndir Rhifedd Dyfal Donc, asesiadau sgiliau rhifedd, darparu sesiynau unigol a monitro parhaus.

Rhan 3 (N3) yw 'Rheoli Rhifedd Dyfal Donc' ac mae'r rhan hon ar gyfer aelodau'r staff a fydd yn rheoli'r ymyriad y mae hwn ar gael. Bydd y sesiwn awr yn canolbwyntio ar reoli'r ymyriad yn effeithiol.

Rhan 4 (N4) yw 'Adolygu a'r camau nesaf' ac mae ar gyfer staff fydd yn darparu Rhifedd Dyfal Donc a staff a fydd yn rheoli'r ymyriad. Bydd y cwrs hanner diwrnod yn adolygu cyflewni Rhifedd Dyfal Donc, ac yn rhoi canllawiau pellach i'r rhai sy'n cael eu hyfforddi. Mae hyfforddiant Rhifedd Dyfal Donc yn cael ei achredu gan Ranbarth Dwyreiniol OCN a gall y rhai sy'n derbyn hyfforddiant ymgeisio ar gyfer achrediad heb gost ychwanegol.

Adnoddau addysgu ychwanegol a chymorth i ymarferwyr

Mae gemau digidol Rhifedd Dyfal Donc yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddan nhw ar gael o fis Medi 2012.

Cymorth ychwanegol i ymarferwyr

- Taflenni ar gyfathrebu â rhieni/gofalwyr.
- Cynllun Gweithredu Cydlynwyr Catch Up®.
- Rhestrau gwirio a chanllawiau ar amserlenni, cyfathrebu â rhieni/gofalwyr a staff, rheoli a chefnogi'r ymyriad; monitro'r ddarpariaeth, casglu data a dathlu llwyddiant.
- Cymorth Gydol Oes gan Gymuned Catch Up®.
- Cyfarfodydd awdurdodau lleol/consortia Catch Up® wedi eu hwyluso gan Catch Up® ddwywaith y flwyddyn.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ewch i www.catchup.org

Neu, e-bostiwch info@catchup.org

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012
Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

1stClass@Number™

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Yn nodweddiadol wedi ei dargedu at ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 sydd tua Lefel 1C y Cwricwlwm Cenedlaethol neu ddysgwyr mewn grwpiau blynyddoedd eraill (hyd at Blwyddyn 4) yn gweithio ar lefel debyg sydd angen cymorth i symud tuag at Lefel 2 ¹¹⁹ .
Tystiolaeth o effaith	Yn 2011/12 ¹²⁰ , derbyniodd 995 dysgwr mewn 175 o ysgolion ¹²¹ gefnogaeth 1st Class@Number™. Wedi ei seilio ar ganlyniadau prawf mathemateg a gafodd ei safoni cyn ac ar ôl ymyriad roedden nhw wedi cynyddu o ran oedran rhif ar gyfartaledd 10.1 mis wedi 23 gwrs mewn 2.2 mis – dros bedair gwaith gymaint o gynnydd ag y byddech chi wedi'i ddisgwyl fel arfer.
Dull cyflawni	Cyfanswm o 24 sesiwn yn para tua 30 i 40 munud dri diwrnod yr wythnos wedi eu cyflwyno gan gynorthwywyr addysgu hyfforddedig i grwpiau bach; mae dysgwyr yn mynychu sesiynau 1stClass@Number™ tra'n parhau i gymryd rhan yn eu dosbarth gwrsi mathemateg arferol.
Cymorth i ymarferwyr	Tri diwrnod dwys o hyfforddi i gynorthwywyr addysgu; cymorth barhaus gan athro/athrawes yn yr ysgol sydd wedi mynychu elfen o'r cwrs hyfforddi.

Trosolwg o'r ymyriad

Datblygwyd 1stClass@Number™ gan Brifysgol Edge Hill a chyflwynwyd yn gyntaf mewn ysgolion yn 2011.

Cyflwynir yr ymyriad gan gynorthwydd addysgu hyfforddedig i grŵp bach o ddysgwyr; nid yw'n cael ei dargedu at y rhai isaf eu cyraeddiadau ond at ddysgwyr *'sydd angen cymorth gyda mathemateg'*¹²².

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

¹¹⁹ Sylwer bod disgrifiadau lefel wedi'i seilio ar y cwricwlwm yn Lloegr.

¹²⁰ Hon oedd flwyddyn gyntaf datblygiad 1stClass@Number™.

¹²¹ Canlyniadau wedi eu seilio ar ddysgwyr yn Lloegr.

¹²² <https://everychildcounts.edgehill.ac.uk/ecc-for-schools/what-is-1stclassnumber/>

Mae 1stClass@Number™ yn un ymyriad oddi fewn i fenter Every Child Counts (ECC)¹²³. Mae'n fath Wave 2¹²⁴ o fenter a gynlluniwyd i gyflenwi Numbers Count™¹²⁵ ac yn ymyriad sy'n sefyll ar ei draed ei hunan mewn ysgol nad yw'n cyflawni Numbers Count™.

Nid yw'r deunydd a'r hyfforddiant ymyrryd ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd ond mae hyfforddiant mewn Saesneg ar gael i ymarferwyr yng Nghymru.

Cynulleidfa darged

Mae 1stClass@Number™ yn cael ei yrru gan lefel yn hytrach na chael ei dargedu at ddysgwyr gan oedran neu grŵp blwyddyn. Mae'r ymyriad yn cael ei dargedu yn nodweddiadol at ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 sydd ar tua Lefel 1C y Cwricwlwm Cenedlaethol neu ddysgwyr mewn grwpiau blynyddoedd eraill (hyd at Flwyddyn 4) sy'n gweithio ar lefel debyg ac angen cymorth i symud tuag at Lefel 2¹²⁶. Fodd bynnag, mae 1stClass@Number™ wedi cael ei gyflwyno drwy'r grŵp oedran ysgol gynradd gyfan.

Mae 1stClass@Number™ 2 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd hyfforddiant ar gael ym mis Medi 2012. Bydd yn dilyn yr un dull â 1stClass@Number™ a bydd yn darparu ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 3 sydd ar tua Lefel 2C y Cwricwlwm Cenedlaethol, neu i ddysgwyr mewn grwpiau blynyddoedd eraill yn gweithio ar lefel debyg sydd angen cymorth i symud ymlaen i Lefel 3.

Sylfaen tystiolaeth effaith

Yn 2011/12¹²⁷, derbyniodd 995 dysgwr ar draws 175 o ysgolion yn Lloegr gymorth 1stClass@Number™. Wedi'i seilio ar ganlyniadau asesiad mathemateg a gafodd ei safoni cyn ac wedi ymyriad,

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012
Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

¹²³ Mae Every Child Counts (ECC) yn strategaeth rhifedd gynnar i godi cyrhaeddiad mewn mathemateg mewn ysgolion cynradd yn Lloegr drwy dair lefel o gymorth.

¹²⁴ Crynhowyd darpariaeth llythrennedd a rhifedd effeithiol a chynhwysol (yn Lloegr) yn y model National Strategies' Waves a gynlluniwyd i leihau i'r eithaf tangyflawniad y dysgwyr i gyd drwy 3 Waves. Cynlluniwyd darpariaeth Wave 2 i gynyddu graddau cynnydd ac i sicrhau dysgu i grwpiau o ddysgwyr sy'n eu gosod yn ôl ar y ffordd i gwrdd â neu i ragori ar ddisgwyliadau cenedlaethol. Mae hyn fel arfer yn cymryd ffurf rhaglen dynn, wedi ei strwythuro i gefnogi grŵp bach sydd wedi ei dargedu'n ofalus yn ôl dadansoddiad angen, a gyflwynir gan athrawon neu gynorthwywr addysgu. Gall y cymorth ddigwydd y tu allan (ond yn ychwanegol at) wersi dosbarth cyfan, neu gael ei adeiladu'n rhan o wersi prif ffrwd fel rhan o waith dan arweiniad.

¹²⁵ Gweler y grynodedb ar wahân i Numbers Count™.

¹²⁶ Noder fod y disgrifiadau lefel wedi eu seilio ar y cwricwlwm yn Lloegr.

¹²⁷ Dyma flwyddyn gyntaf datblygiad 1stClass@Number™.

roedd dysgwyr wedi ennill o ran oedran rhif ar gyfartaledd 10.1 mis wedi 23 gwrs mewn 2.2 mis; mae hyn dros bedair gwaith gymaint o gynnydd ag y byddech chi wedi'i ddisgwyl fel arfer.

Nid oes data swyddogol wedi eu seilio ar grŵp cymhariaeth na dderbyniodd gymorth o gwbl neu a dderbyniodd gymorth o natur amgen, ac ni chasglwyd data dilynol wedi'i seilio ar grŵp sampl.

Dull cyflawni

Mae sesiynau 1stClass@Number™ yn cael eu cyflwyno gan gynorthwydd addysgu i grŵp o hyd at bedwar dysgwr. Mae'r gwrsi'n canolbwyntio ar rif a chyfrif, a sgiliau rhifedd a chyfathrebu ac ar eu gallu i feddwl yn fathemategol.

Seilir y sesiynau o gwmpas thema Swyddfa Bost sydd wedi ei fwriadu i ddal a datblygu hyder y dysgwyr mewn ffordd ymarferol. Yn ystod rhan olaf pob sesiwn mae'r dysgwyr yn cyfansoddi cerdyn post grŵp, sy'n crynhoi y cysyniadau y maen nhw wedi eu dysgu yn y sesiwn arbennig hwn. Ysgrifennir y cerdyn post gan y cynorthwydd addysgu ar y sail y byddai gallu'r dysgwyr i gyfathrebu cynnwys y sesiwn rhifedd ar ffurf ysgrifenedig yn gallu cael ei danseilio gan anawsterau llythrennedd.

Mae cynorthwydd addysgu yn dilyn cynlluniau manwl ac adnoddau helaeth a ddarparwyd yn ystod sesiynau hyfforddi ymarferwyr (gweler isod).

Mae pob uned o chwe gwrs yn dechrau gydag asesiad syml sy'n helpu'r cynorthwydd addysgu i deilwrio'r sesiynau i anghenion y grŵp. Mae cynorthwydd addysgu 1stClass@Number™ yn cysylltu'n agos gydag athro/athrawes/athrawon dosbarth y dysgwyr i rannu gwybodaeth am y dysgwyr ac i gynllunio gyda'i gilydd ar gyfer cynnydd y dysgwyr. Yn ystod cwrs rhaglen 1stClass@Number™, mae dysgwyr yn parhau i fynychu gwrsi prif ffrwd mathemateg.

Gweithdrefn asesu

Mae ymyriad 1stClass@Number™ yn dechrau gydag asesiad diagnostig manwl o beth mae pob dysgwr yn ei wybod. Yr offeryn a argymhellir gan Brifysgol Edge Hill yw'r Sandwell Early Numeracy Test¹²⁸ ac fe'i defnyddir cyn ac wedi'r ymyriad er mwyn mesur cynnydd, er y gellir defnyddio offerynnau asesu amgen hefyd

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

¹²⁸ Mae'r Rhaglen Every Child Counts (ECC) yn cymeradwyo'r Sandwell Early Numeracy Test i ysgolion er mwyn dadansoddi sgiliau a monitro cynnydd.

(e.e. SCYA), yn enwedig i'r dysgwyr mewn grwpiau blwyddyn uwch (e.e. Blwyddyn 4) ble mae Sandwell Early Numeracy Test yn llai addas.

Bydd y Profion Rhifedd Cenedlaethol i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 2 i 9, a gaiff eu cyflwyno yng Nghymru ym mis Mai 2013, yn cefnogi proses yr asesiad cyntaf.

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Mae 1stClass@Number™ yn cynnwys 24 sesiwn rhwng 30 a 40 munud wedi eu trosglwyddo dair gwaith yr wythnos.

Cost a gofynion adnoddau

Mae costau hyfforddi cynorthwywyr addysgu yn amrywio mewn gwahanol awdurdodau lleol; fodd bynnag, cyfartaledd y gost am gwrs hyfforddi tri diwrnod yw £630.

Mae angen adnoddau ychwanegol i gyllido amser yr ymarferwr i gyflwyno'r ymyriad. Bydd y gost yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau lleol. Mae Prifysgol Edge Hill yn argymhell caniatáu 45 munud ychwanegol yr wythnos i gynorthwywyr addysgu i gynllunio a pharatoi sesiynau a chysylltu ag athrawon dosbarth.

Mae gofyn hefyd i ysgolion ddarparu ciwbiau cyswllt, papur a rhai darnau arian (mewn arian cyfreithlon)¹²⁹.

Hyfforddiant ymarferwyr

Mae cynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfanswm o hyfforddiant tri diwrnod am y mathemateg sy'n gwaelodoli ymyriad y 1stClass@Number™. Maen nhw'n derbyn cefnogaeth parhaus yn yr ysgol gan athro/athrawes drwyddedig sydd angen mynychu elfen o'r cwrs hyfforddi.

Mae rhaglen hyfforddi 1stClass@Number™ ar gael yng Nghymru i'w gyflawni i grŵp o faint hyfyw o ymarferwyr.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ewch i <https://everychildcounts.edgehill.ac.uk/ecc-for-schools/>

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

¹²⁹ Mae Prifysgol Edge Hill yn cymeradwyo defnyddio arian go iawn ar y sail ei fod yn helpu dysgwyr i wahaniaethu rhwng y gwahanol siapiau, meintiau, llythrennu a rhifau sydd ar y darnau arian.

Mathematics Recovery

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Dysgwyr sydd â chyrhaeddiad isel ym Mlwyddyn 1 ac uwch.
Tystiolaeth o effaith	Yn ystod y cwrs o 44 gwerau Mathematics Recovery, llwyddodd dysgwyr Blwyddyn 2 ¹³⁰ i ennill cymedr sgôr safonedig SCYA ¹³¹ o 19.26, ac ennill cymedr o 3.13 yn lefelau is y cwricwlwm cenedlaethol ¹³² .
Dull cyflawni	Sesiynau 30 munud o gyfarwyddyd i'r unigolyn a ddarperir gan athro/athrawes neu gynorthwydd addysgu brofiadol am bedwar diwrnod yr wythnos dros gyfnod o hyd at 12 wythnos. Mae'r rhaglen hefyd yn addas ar gyfer hyfforddi grwpiau bach.
Cymorth i ymarferwyr	Cwrs datblygu proffesiynol estynnol a chymorth colegol ac arweinydd parhaus i athrawon Mathematics Recovery.

Trosolwg o'r ymyriad

Datblygwyd y rhaglen Mathematics Recovery yn Awstralia yn gynnar yn ystod y 1990au. Fe'i dyfeisiwyd yn wreiddiol fel rhaglen ddwys, un-i-un ar gyfer dysgwyr oedd â chyrhaeddiad isel. Fodd bynnag, tra'n cadw'r unigolyn fel canolbwynt, esblygodd y rhaglen dros gyfnod o amser ac fe'i defnyddiwyd hefyd ar gyfer mentrau grwpiau a dosbarth cyfan er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn rhifedd mewn amrywiaeth o oedrannau a lefelau gallu¹³³.

Mae pwyslais y rhaglen Mathematics Recovery ar asesiad ac arsylwi parhaus, i benderfynu gwybodaeth dysgwyr ac i ganfod y strategaethau maen nhw'n eu defnyddio i fynd i'r afael â sialensiau mathemategol, er mwyn cefnogi datblygu eu gwybodaeth, gallu a hunanhyder mewn rhifedd. Mae'r rhaglen hefyd yn defnyddio myfyrdod athrawon drwy ddefnyddio tâp fideo ar gyfer y cyfweiliadau asesu ac yn ystod y sesiynau addysgu.

¹³⁰ Mewn ysgolion yn Lloegr.

¹³¹ Mae sgoriau safonedig yn darparu dull o ddeall sgoriau profion yn fwy gwrthrychol na drwy ddefnyddio canrannau. Maen nhw'n cymryd i ystyriaeth ffactorau fel pa mor anodd oedd y prawf, neu sut roedd sgoriau dysgwyr unigol yn cymharu â sgoriau dysgwyr eraill, neu yn erbyn data meincnod ehangach.

¹³² Yn y cwricwlwm yn Lloegr, mae cyfres o wyth o lefelau yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2, a 3, a ddefnyddir i fesur cynnydd dysgwyr o'u cymharu â dysgwyr o'r un oed ledled y wlad.

¹³³ Sylwer mai pwrpas y ddogfen hon yw i ddarparu canllaw ar gyflawni Mathematics Recovery fel ymyriad dal i fyny, mewn naill ai sesiynau un-i-un neu sesiynau grŵp ac ni fwriedir iddo fod yn ganllaw ar ddull ysgol gyfan neu ddsbarth cyfan.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

Nid yw'r deunyddiau ymyriad a'r hyfforddiant ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd, ond mae hyfforddiant i ddarparu'r ymyriad yn Saesneg ar gael i ymarferwyr yng Nghymru.

Cynulleidfa darged

Mae'r ymyriad yn briodol i ddysgwyr ym Mlwyddyn 1 ac uwch sy'n cael mathemateg 'yn anodd'. Mae fel rheol yn cael ei ddarparu i ddysgwyr chwech a saith oed, er y gellir hefyd ei ddefnyddio gyda dysgwyr mewn grwpiau oedran eraill. Er gwaethaf y pwyslais ar ymyriad cynnar ar gyfer dysgwyr ifanc, gellir defnyddio deunyddiau asesu ac addysgu ac maen nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer dysgwyr hyd at 12 oed.

Nid oes criteria haearnaidd ar gyfer dewis ar gyfer y rhaglen neu ar gyfer ei gadael.

Sail tystiolaeth effaith

Roedd Mathematics Recovery yn un o'r ymyriadau cyntaf i'w dreialu i ddysgwyr saith oed¹³⁴ oedd ag anawsterau rhifedd yn y gwaith ymchwil a wnaed yn ystod tymor yr haf 2008 gan y fenter Every Child Counts (ECC)¹³⁵.

Astudwyd yr ymyriad mewn 20 ysgol ar draws dau awdurdod lleol, gyda chyfanswm o 88 o ddysgwyr Blwyddyn 2, gyda phob un yn cychwyn ar lefel y cwricwlwm cenedlaethol ychydig dros Lefel 1C¹³⁶.

Aseswyd y canlyniadau yn nhermau ennill pwyntiau y cwricwlwm cenedlaethol¹³⁷ ac yn nhermau ennill mewn sgoriau ar brawf mathemateg safonedig SCYA. Mae'r tabl isod yn rhoi'r canlyniadau ar gyfer y ddau awdurdod lleol.

Awdurdod lleol	Nifer y dysgwyr yn y cohort	Nifer ar gyfartaledd o wersi Mathematics Recovery	Ennill cymedrig yn is-lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol	Ennill cymedrig yn sgôr safonol SCYA
A	41	44	3.13	19.26
E	47	16	1.95	10.84

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012

Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

¹³⁴ Mewn ysgolion yn Lloegr.

¹³⁵ Mae Every Child Counts (ECC) yn strategaeth rhifedd cynnar er mwyn codi cyflawniad mewn mathemateg mewn ysgolion cynradd yn Lloegr drwy dair lefel cymorth.

¹³⁶ *What Works for Children with Mathematical Difficulties? The effectiveness of intervention schemes*, A Dowker (Prifysgol Rhydychen, 2009).

¹³⁷ '0' yn cynrychioli 'Gweithio tuag at Lefel 1' a '7' yn cynrychioli 'Lefel 3C'.

Erbyn diwedd Blwyddyn 2, roedd 83 y cant o'r dysgwyr yn awdurdod lleol A wedi cyrraedd o leiaf Lefel 2C, a 41 y cant wedi cyrraedd o leiaf Lefel 2B.

Yn awdurdod lleol E, roedd 53 y cant o'r dysgwyr wedi cyrraedd o leiaf Lefel 2C, a 32 y cant wedi cyrraedd o leiaf Lefel 2B.

Nid oes data swyddogol yn seiliedig ar grŵp cymharu na chafodd gefnogaeth o gwbl, neu a gafodd gefnogaeth o natur wahanol.

Dull cyflawni

Mae cyfarwyddyd oddi fewn i sesiynau Mathematics Recovery yn cael ei arwain gan asesiad cynhwysfawr cychwynnol (gweler yr adran isod 'Gweithdrefn asesu') ac asesiad arsylwi parhaus ac fod y pynciau allweddol a ddewisir wedi eu teilwra i gyfnod cyffredinol y dysgwr. Mae'r sesiynau yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a gwybodaeth mewn: geiriau rhifau a dilyniannau geiriau rhifau; cydnabod, adnabod ac ysgrifennu rhifolion; strategaethau ar gyfer adio a thynnu; agweddau degau ac un o'r system cyfrif; a dulliau o nodiant mewn rhifyddeg.

Mae'r Instructional Framework in Early Number, sydd wedi ei llunio'n bwrpasol i'r rhaglen Mathematics Recovery, yn llywio cynnwys addysgu'r sesiynau, ble mae dysgwyr yn datrys problemau mathemategol sydd ychydig y tu hwnt i'w wybodaeth bresennol.

Gweithdrefn asesu

Mae'r Learning Framework in Number (hefyd wedi ei datblygu ar gyfer y Rhaglen Mathematics Recovery) yn darparu'r strwythurau angenrheidiol ar gyfer asesiad a phroffil unigol wedi'i seilio ar yr asesiad a ddefnyddir i ddatblygu fframwaith addysgu bersonol i bob dysgwr.

Ar ddechrau'r Rhaglen Mathematics Recovery cynhelir cyfweiliad asesu diagnostig gyda'r dysgwr i ganfod lefel eu gallu ar hyn o bryd. Nid yw'r asesiad (sydd wedi ei ddatblygu'n benodol ar gyfer y Rhaglen Mathematics Recovery) yn berthnasol i oed nac wedi ei seilio ar y cwricwlwm ac nid yw'n golygu darllen nac ysgrifennu. Yn hytrach, mae'n cynnwys chwe chyweliad asesu sydd wedi eu tapio ar fideo gyda'r dysgwr yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar wybodaeth rhif a strwythur ac ar benderfynu ar y strategaethau mae dysgwyr yn eu defnyddio i ddatrys problemau mathemategol.

Amserlenni asesu wedi'u seilio ar chwe chyweliad y Rhaglen Mathematics Recovery

Mae asesiadau 1.1 ac 1.2 yn mynd i'r afael â soffistigeiddrwydd cymharol y dysgwr wrth adio a thynnu; ei ddawn â geiriau rhifau a dilyniannau geiriau rhifau ymlaen ac yn ôl; y gallu i ganfod, adnabod a rhoi trefn ar rifolion.

Mae asesiadau 2.1 a 2.2 yn mynd i'r afael â gwybodaeth y dysgwr o strwythur degau ac un o'r system cyfrif; soffistigeiddrwydd cymharol ac amrywiaeth o strategaethau heblaw cyfrif fesul un i ddatrys tasgau adio a thynnu.

Mae asesiadau 3.1 a 3.2 yn mynd i'r afael â lluosu a rhannu cynnar a meysydd eraill.

Bydd y Profion Rhifedd Cenedlaethol i ddysgwyr ym Mlynedd 2 i 9, a gaiff eu cyflwyno yng Nghymru ym Mai 2013, yn cefnogi y broses hon o asesiad cychwynol.

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Naill ai un-i-un neu mewn sesiwn grŵp bach, mae'r Rhaglen Mathematics Recovery yn golygu sesiynau 30 munud wedi'u darparu bedwar neu bum diwrnod yr wythnos dros gyfnod o rhwng 10 a 15 wythnos.

Cost a gofynion adnoddau

Mae hyfforddiant i gyflawni'r Mathematics Recovery ar gael gan y Mathematics Recovery Council UK and Ireland¹³⁸. Mae hyfforddiant ar gyfer pob modiwl yn costio £175 fesul cynrychiolydd fesul diwrnod¹³⁹ gan gynnwys man cyfarfod a lluniaeth ysgafn, a gellir ei gyflenwi i isafswm o 15 cynrychiolydd¹⁴⁰.

Mae angen adnoddau ychwanegol i gyllido amser cynorthwydd addysgu neu athro/athrawes i gyflawni'r gwaith.

Hyfforddi ymarferwyr

Bwriedir y Mathematics Recovery Intervention Professional Development ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

¹³⁸ Sefydliad dielw yw Mathematics Recovery Council UK and Ireland sy'n anelu at roi cymorth i'r rhai sydd mewn addysg sy'n dymuno defnyddio'r Mathematics Recovery Programme.

¹³⁹ I ymarferwyr sy'n mynychu Modiwl 1 a Modiwl 2, mae hyn yn golygu wyth diwrnod, a chyfanswm y gost yw £1,400 i bob un.

¹⁴⁰ Os yw awdurdodau lleol neu ysgolion yn darparu man cyfarfod, mae'r costau'n sylweddol is.

profiadol. Mae'r rhaglen hyfforddi yn galluogi athrawon i ddod yn arbenigwyr mewn datblygiad mathemateg cynnar dysgwyr ac yn rhoi cyfarpar iddyn nhw i ddarparu cymorth i gydweithwyr yn yr ysgol ar ddatblygiad rhifedd. Rhaid i bob cynorthwydd addysgu gael eu cefnogi gan athro/athrawes. Gall athrawon gefnogi mwy nag un cynorthwydd addysgu. Mae dau fodiwl ar gael i ymarferwyr:

- Modiwl 1 (pum niwrnod) yn galluogi athrawon a chynorthwywyr addysgu i ddarparu ymyriad i ddysgwyr oddi fewn i Gyfnod Allweddol 1
- Modiwl 2 (tri diwrnod) yn adeiladu ar ac yn ehangu Modiwl 1 ac yn galluogi athrawon a chynorthwywyr addysgu i ddarparu ymyriad yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2.

Strwythur hyfforddiant Mathematics Recovery

Modiwl 1 (pum niwrnod o hyfforddiant):

- Diwrnodau 1 a 2: Canolbwyntio ar asesu
 - tasgau bylchau i'w cwblhau yn yr ysgol
- Diwrnodau 3, 4 a 5: Canolbwyntio ar addysgu
 - ymyriad yn cychwyn.

Mae'r ffi yn cynnwys:

- pum niwrnod o hyfforddiant wyneb yn wyneb i athrawon a chynorthwywyr addysgu
- pecyn asesu a dau lyfr cwrs
- cymorth parhaol drwy ymgynghorydd Mathematics Recovery.

Strwythur hyfforddiant Mathematics Recovery (parhad)

Modiwl 2 (tri diwrnod o hyfforddiant):

- Diwrnodau 6, 7 a 8: Canolbwyntio ar asesu ac addysgu ar:
 - degau ac un, strwythuro rhifau hyd at 20
 - lluosï a rhannu
 - ymyriad yn parhau.

Mae'r ffi yn cynnwys:

- pum niwrnod o hyfforddiant wyneb yn wyneb i athrawon a chynorthwywyr addysgu
- pecyn asesu ac un llyfr cwrs
- cymorth parhaol drwy ymgynghorydd Mathematics Recovery
- achrediad dewisol ar gwblhau portffolio gan y Mathematics Recovery Council UK and Ireland.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

Adnoddau addysgu ychwanegol a chymorth i ymarferwyr

Mae amrywiaeth o adnoddau defnyddiol, gan gynnwys pedwar llyfr yn y gyfres Mathematics Recovery, ar gael gan wahanol gyflenwyr a gellir eu gweld ar dudalen adnoddau gwefan y Mathematics Recovery Council UK and Ireland yn www.mathsrecovery.org.uk/resources

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.mathsrecovery.org.uk

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012
Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

Numbers Count™

Crynodeb	
Cynulleidfa darged	Dysgwyr ym Mlynnyddoedd 1 i 3 sy'n cael mathemateg yn anodd ac na fyddan nhw efallai yn cyrraedd Lefel 3 ar diwedd Cyfnod Allweddol 2.
Tystiolaeth o effaith	Mae dros 30,000 o ddysgwyr ¹⁴¹ wedi cymryd rhan yn Numbers Count™ ers 2008, gan wneud cynnydd mewn oedran rhif ar gyfartaledd o 14 mis yn ystod cyfnod o 12 wythnos ar gyfartaledd.
Dull cyflawni	Sesiynau dyddiol yn para 30 munud yn cael eu rhoi fesul un-i-un neu mewn grŵp bach iawn gan athro/athrawes hyfforddedig dros gyfnod o rhwng deg ac ugain wythnos yn dibynnu ar lefel anghenion yr unigolyn.
Cymorth i ymarferwyr	Hyfforddiant dwys a chymorth parhaus i athrawon am ddau dymor gan Arweinydd Athrawon Lleol Every Child Counts (ECC) ¹⁴² .

Trosolwg o'r ymyriad

Datblygwyd Numbers Count™ gan Brifysgol Edge Hill a chafodd ei lansio ym mis Medi 2008; ers hynny fe'i defnyddiwyd mewn 712 o ysgolion. Tynnodd Numbers Count™ ar wersi a ddysgwyd gan Mathematics Recovery¹⁴³, Numicon¹⁴⁴ a Numeracy Recovery¹⁴⁵.

Targedir Numbers Count™ at y rhai isaf eu cyrhaeddiad a chaiff ei gyflawni gan athro/athrawes sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 1 i 3 sy'n cael mathemateg yn anodd. Mae sesiynau yn cael eu cyflawni yn unigol neu i ddau neu dri o ddysgwyr gyda'i gilydd, yn ôl cyfarwyddyd yr athro/athrawes.

¹⁴¹ Canlyniadau wedi'u seilio ar ddysgwyr yn Lloegr.

¹⁴² Mae Every Child Counts (ECC) yn strategaeth rhifedd cynnar er mwyn codi cyrhaeddiad mewn mathemateg mewn ysgolion cynradd yn Lloegr drwy dair lefel o gymorth.

¹⁴³ Mae Mathematics Recovery yn ymyriad dwys iawn o Awstralia sy'n cymryd 30 munud o gyfarwyddyd unigol neu mewn grwpiau bach am bedwar diwrnod yr wythnos am hyd at 12 wythnos.

¹⁴⁴ Mae'r Rhaglen Addysgu Numicon yn ddull sydd wedi'i seilio o amgylch addysgu amlsynnwyr, gan gyfuno moddolrwydd clywedol, gweledol a cinesthetig. Gall gael ei gyflawni fel ymyriad ar ei ben ei hun; yn yr un ffordd gall adnoddau amlsynnwyr Numicon hefyd gael eu defnyddio fel rhan o ymyriad arall.

¹⁴⁵ Mae Numeracy Recovery yn beilot cynllun ymyriad cynnar a ddatblygwyd yn 2001 sy'n golygu sesiynau un-i-un am hanner awr bob wythnos i ddysgwyr chwech a saith oed.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012
Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

Mae Numbers Count™ yn fath o ymyriad Wave 3¹⁴⁶ oddi fewn i'r fenter Every Child Counts (ECC)¹⁴⁷.

Nid yw'r deunyddiau ymyriad a hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd ond mae'r hyfforddiant i gyflawni'r ymyriad yn Saesneg ar gael i ymarferwyr yng Nghymru.

Cynulleidfa darged

Anelir Numbers Count™ at ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 1 i 3 sy'n cael mathemateg yn anodd ac na fyddan nhw efallai yn cyrraedd Lefel 3 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2¹⁴⁸.

Mae Numbers Count™ 2 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd hyfforddiant ar gael ym mis Ionawr 2013. Bydd yn dilyn yr un dull â Numbers Count™, bydd yn darparu ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 4 i 6 sy'n cael mathemateg yn anodd, a bydd yn anelu at gau'r bwlch rhyngddyn nhw a'u cyfoedion a ailfywiogi eu dysgu. Mewn astudiaeth beilot o Numbers Count™ 2, llwyddodd 18 dysgwr i gynyddu oedran rhifedd o 15.5 mis ar gyfartaledd mewn prawf wedi'i safoni wedi 20 awr o ddysgu unigol dros gyfnod o dri mis.

Sail tystiolaeth effaith

Yn ystod 2010/11, fe wnaeth 18,000 o ddysgwyr¹⁴⁹ gymryd rhan yn Numbers Count™. Wedi 22 awr o addysgu dros gyfnod o dri mis, roedden nhw wedi gwneud cynnydd mewn oedran rhif ar gyfartaledd o 14.5 mis mewn prawf wedi'i safoni. Fe wnaethan nhw barhau i wneud cynnydd ar ôl dychwelyd i'r dosbarth, gan wneud cynnydd pellach mewn oedran rhif ar gyfartaledd o 8.5 mis yn ystod y chwe mis dilynol¹⁵⁰. Roedd dysgwyr oedd wedi cael eu haddysgu ar eu pen eu hunain a dysgwyr a addysgwyd mewn parau a thrioedd yn gwneud yr un cynnydd cadarn.

Nid oes data swyddogol wedi'i seilio ar grŵp cymhariaeth na dderbyniodd gymorth o gwbl neu a dderbyniodd gymorth o natur wahanol.

Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif: 088/2012
Dyddiad diwygio: Tachwedd 2012

¹⁴⁶ Cafwyd crynodeb o ddarpariaeth effeithiol a chynhwysol ar gyfer llythrennedd a rhifedd (yn Lloegr) yn y model National Strategies' Waves ac roedd wedi ei gynllunio i isafu tangyflawniad i bob dysgwr drwy 3 Waves. Mae Wave 3 yn cyfeirio at y ffurf o gymorth dwysaf gan athro/athrawes arbenigol, cynorthwydd addysgu sydd wedi'i hyfforddi i safon uchel, neu fentor academaidd sy'n cyflawni mewn dull un-i-un neu mewn grwpiau bach er mwyn cefnogi dysgwyr i gyrraedd targedau penodol iawn.

¹⁴⁷ Mae Every Child Counts (ECC) yn strategaeth rhifedd cynnar er mwyn codi cyrraedd mewn mathemateg mewn ysgolion cynradd yn Lloegr drwy dair lefel o gymorth.

¹⁴⁸ Sylwer fod hyn wedi'i seilio ar lefelau oddi fewn i'r cwricwlwm yn Lloegr.

¹⁴⁹ Mewn ysgolion yn Lloegr.

¹⁵⁰ Mae data ar gael ar wefan Every Child Counts (ECC) yn

<https://everychildcounts.edgehill.ac.uk/ecc-for-schools/benefits-for-schools/>

Dull cyflawni

Cyflawnir sesiynau Numbers Count™ mewn ardal sydd wedi'i neilltuo i addysgu ac mae'n dilyn arferion osodedig. Serch hynny, mae pob sesiwn yn unigryw ac wedi'i theilwra i anghenion dysgwyr unigol fel y penderfynwyd gan ganlyniadau yr asesiad diagnostig cychwynnol. Mae'r gwersi yn drwyadl ac yn fywiog ac yn cynnwys adnoddau amrywiol. Mae gwersi'n canolbwyntio ar rif a chyfrif gan gydnabod tystiolaeth a brofwyd fod yr elfennau hyn yn tanategu datblygu dealltwriaeth ar draws pob agwedd o fathemateg. Mae'r athro/athrawes yn amcanu at helpu pob dysgwr i ddatblygu eu sgiliau rhifedd a'u hyder ac i fwynhau dysgu mathemateg. Yr amcan yn y pendraw yw galluogi'r dysgwr i barhau i wneud cynnydd da mewn mathemateg prif ffrwd wedi cwblhau Numbers Count™.

Mae athro/athrawes Numbers Count™ yn cysylltu'n agos ag athro dosbarth/athrawes ddosbarth y dysgwr i rannu gwybodaeth am y dysgwr ac i gynllunio gyda'i gilydd ar gyfer cynnydd y dysgwr. Mae athro/athrawes Numbers Count™ yn gosod gwaith cartref rheolaidd ac yn cwrdd â'r rhieni/gofalwyr i drafod sut y gallan nhw gefnogi dysgu eu plant yn y cartref. Yn ystod cwrs y Rhaglen Numbers Count™, mae dysgwyr yn parhau i fynychu gwersi mathemateg prif ffrwd.

Gweithdrefn asesu

Mae'r athro/athrawes yn dechrau drwy wneud asesiad diagnostig manwl o beth mae pob dysgwr yn ei wybod ac wedyn yn cynllunio rhaglen unigol i helpu pob dysgwr i symud ymlaen. Y Sandwell Early Numeracy Test¹⁵¹ yw'r offeryn a argymhellir gan Brifysgol Edge Hill ac fe'i defnyddir cyn ac ar ôl ymyriad er mwyn mesur cynnydd, er y gellir defnyddio offerynnau asesu eraill hefyd, e.e. SCYA.

Bydd y Profion Rhifedd Cenedlaethol i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9, a gaiff eu cyflwyno yng Nghymru ym Mai 2013, yn cefnogi'r broses hon o asesiad cychwynnol.

Amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyriad

Mae Numbers Count™ yn cynnwys sesiynau 30 munud a gyflawnir yn ddyddiol yn ystod cwrs o tua 12 wythnos.

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd
Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

¹⁵¹ Mae'r Rhaglen Every Child Counts (ECC) yn argymhell y Sandwell Early Numeracy Test i ysgolion er mwyn dadansoddi sgiliau ac i fonitro cynnydd.

Cost a gofynion adnoddau

Mae'r costau ar gyfer rhaglen datblygiad proffesiynol yn amrywio mewn gwahanol awdurdodau lleol; fodd bynnag, mae'r gost ar gyfartaledd yn £2,100 am gwrs hyfforddiant saith diwrnod.

Mae angen adnoddau ychwanegol i gyllido amser ymarferwr ar gyfer cyflawni'r ymyriad. Bydd y gost yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.

Hyfforddiant ymarferwr

Mae athrawon Numbers Count™ yn gwneud rhaglen datblygiad proffesiynol arbenigol ac yn derbyn hyfforddiant dwys a chymorth am ddau dymor er mwyn dysgu am weithdrefnau Numbers Count™ ac am ddulliau effeithiol o addysgu rhif a chyfrif. Maen nhw'n cael eu hyfforddi ac yn derbyn cymorth parhaus gan Arweinydd Athrawon Every Child Counts (ECC) oddi fewn i'w awdurdod lleol, sydd yn eu tro yn derbyn hyfforddiant gan Hyfforddwyr Cenedlaethol Prifysgol Edge Hill.

Mae'r rhaglen hyfforddi ar gael i'w chyflawni yng Nghymru i grŵp maint hyfyw o ymarferwyr.

Adnoddau addysgu ychwanegol a chymorth i ymarferwyr

Cymorth blynyddol i athrawon achrededig

Dau ddiwrnod o ddatblygu proffesiynol wyneb yn wyneb yn cael ei arwain gan Arweinydd Athrawon, sy'n cynnwys:

- datblygiadau a diweddariadau Numbers Count™
- cwricwlwm ac addysgeg mathemateg
- cefnogi mathemateg ar draws yr ysgol
- un ymweliad â'r ysgol gan Arweinydd Athrawon
- ail achrediad fel athro/athrawes Numbers Count™ os ydyn nhw'n cwrdd â safonau a gyhoeddwyd
- dadansoddi data.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ewch i

<https://everychildcounts.edgehill.ac.uk/ecc-for-schools/>

Rhagor o wybodaeth a'r camau nesaf

Ar hyn o bryd mae hyd at 100 o raglenni wedi'u cynllunio i gyflymu cynnydd mewn llythrennedd a/neu rhifedd, ac mae rhaglenni ychwanegol yn parhau i gael eu datblygu yn y DU ac yn rhyngwladol. Fodd bynnag, nid oes gan y mwyafrif o'r rhaglenni hyn ar hyn o bryd ddigon o dystiolaeth gadarn o effeithiolrwydd wrth gyflymu datblygu llythrennedd a/neu rhifedd. Byddem yn disgwyl i ysgolion ddefnyddio rhaglenni a brofwyd i fod yn rhai llwyddiannus a byddem yn disgwyl i gonsortia gwella ysgolion eu hannog i wneud hynny.

Serch hynny, mae arbenigwyr addysg ac academyddion yn parhau i wneud ymchwil i ymyriadau dal i fyny yn gyffredinol a rhagwelir yr ychwanegir rhaglenni pellach sy'n cwrdd â'r meini prawf angenrheidiol i'r canllawiau hyn yn y dyfodol.

Os gwyddoch am raglen nad yw wedi ei rhestru yn y canllawiau hyn, ond sy'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer ei chynnwys, anfonwch y manylion at curriculumdivision@cymru.gsi.gov.uk

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar amrywiaeth ehangach o raglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd yn y ffynonellau canlynol:

- *Gwella rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3* (Estyn, 2012)
- *What works for pupils with literacy difficulties? The effectiveness of intervention schemes* (Third Edition), G Brooks (Department for Children, Schools and Families, 2007)
- gwefan Dyslexia-SpLD Trust' Interventions for Literacy sy'n cynnwys crynodebau o dros 25 o ymyriadau llythrennedd sydd wedi eu graddio fel 'defnyddiol', 'sylweddol' neu 'nodedig'¹⁵² sydd ar gael yn www.interventionsforliteracy.org.uk/interventions/list-view

¹⁵² Fel y canfuwyd yn *What works for pupils with literacy difficulties? The effectiveness of intervention schemes* (Third Edition), G Brooks (Department for Children, Schools and Families, 2007).

Rhestr o dermau

Term	Diffiniad
Every Child a Reader (ECaR)	Mae Every Child a Reader (ECaR) yn strategaeth llythrennedd gynnar er mwyn codi cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 1 mewn ysgolion yn Lloegr.
Every Child Counts (ECC)	Mae Every Child Counts (ECC) yn strategaeth rhifedd gynnar er mwyn codi cyrhaeddiad mewn mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 1 mewn ysgolion yn Lloegr.
Wave 1	Cynhwysiad effeithiol o bob plentyn mewn dysgu ac addysgu o safon uchel o lythrennedd/rhifedd mewn gwersi prif ffrwd; nodwedd o'r model blaenorol 'Waves' y Strategaeth Gynradd Genedlaethol ¹⁵³ .
Wave 2	Darpariaeth ychwanegol cyfyngedig gan amser ar ffurf ymyriad grwpiau bach i gyflymu cynnydd i alluogi dysgwyr i weithio ar y lefel ddisgwyliedig o'u hoed; nodwedd o'r model blaenorol 'Waves' y Strategaeth Gynradd Genedlaethol ¹⁵⁴ .
Wave 3	Darpariaeth ychwanegol cyfyngedig gan amser i gyflymu cynnydd dysgwyr a dargedwyd sydd angen cymorth dwysach. Gall hyn olygu gweithgareddau addysgu gyda ffocws pendant sy'n mynd i'r afael â gwallau a chamsyniadau sylfaenol sy'n atal cynnydd mewn llythrennedd/rhifedd; nodwedd o'r model blaenorol 'Waves' y Strategaeth Gynradd Genedlaethol ¹⁵⁵ .

Canllawiau ar gyfer
rhaglenni dal i fyny
llythrennedd a rhifedd

Dogfen ganllawiau rhif:
088/2012

Dyddiad diwygio:
Tachwedd 2012

¹⁵³ Yn Lloegr.

¹⁵⁴ Yn Lloegr.

¹⁵⁵ Yn Lloegr.